

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

90/2024

DYDDIAD CYHOEDDI:

19/12/2024

Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt Ipsos: Adroddiad 2023 ar gyfer Cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-095-3

Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt Ipsos: Adroddiad 2023 ar gyfer Cymru

Awdur: Siân Hughes, Ymchwil i Dwristiaeth (Gwasanaethau
Gwybodaeth a Dadansoddi)

Yr Adroddiad Ymchwil Llawn: Hughes, S. 2024. *Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt Ipsos: Adroddiad 2023 ar gyfer Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol rhif 90/2024.
Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/mynegai-brandiau-cenhedloedd-anholt-ipsos-adroddiad-2023-ar-gyfer-cymru>

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn safbwyntiau Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ymchwil i Dwristiaeth

Economi, Ynni a Chynllunio

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o'r tablau.....	2
Rhestr o'r ffigurau	4
1. Cefndir.....	5
2. Methodoleg	8
3. Casgliadau	21
4. Sylwadau Clo	63
Adran gyfeirio.....	66
Atodiad A: Amlinelliad o'r Holiadur.....	67
Atodiad B: Sgorau cymedrig a sgorau wedi'u trosi Cymru ar gyfer y dimensiynau a'r priodoleddau, yn ôl cysylltiad a chyfarwyddineb â Chymru	70

Rhestr o'r tablau

Tabl 1: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023, Amlinelliad o'r Dimensiynau	9
Tabl 2: Trosi o Raddfa Likert 7 pwynt i Sgôr allan o 100.....	11
Tabl 3: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023, yr 20 o Wledydd Panel Craidd fesul Rhanbarth	12
Tabl 4: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023, 60 Cenedl y Mynegai fesul Rhanbarth	14
Tabl 5: Safle cyffredinol Cymru yn y Mynegai Brandiau Cenhedloedd (2020 i 2023)	21
Tabl 6: Cyfarwyddineb cyffredinol â Chymru (2020 a 2023)	27
Tabl 7: Ffaffrioldeb tuag at Gymru (2020 a 2023)	30
Tabl 8: Safle Cymru ar gyfer Allforion (2020 a 2023)	38
Tabl 9: Sgorau Cymru ar gyfer Allforion (2020 a 2023).....	39
Tabl 10: Safle Cymru ar gyfer Llywodraethu (2020 a 2023).....	41
Tabl 11: Sgorau Cymru ar gyfer Llywodraethu (2020 a 2023)	42
Tabl 12: Safle Cymru ar gyfer Diwylliant (2020 a 2023).....	43
Tabl 13: Sgorau Cymru ar gyfer Diwylliant (2020 a 2023)	44
Tabl 14: Safle Cymru ar gyfer Pobl (2020 a 2023).....	45
Tabl 15: Sgorau Cymru ar gyfer Pobl (2020 a 2023)	46
Tabl 16: Safle Cymru ar gyfer Twristiaeth (2020 a 2023).....	48
Tabl 17: Sgorau Cymru ar gyfer Twristiaeth (2020 a 2023)	49
Tabl 18: Safle Cymru ar gyfer Mewnfudo a Buddsoddi (2020 a 2023).....	51
Tabl 19: Sgorau Cymru ar gyfer Mewnfudo a Buddsoddi (2020 a 2023)	52
Tabl 20: Safleoedd a Sgorau Cymru ar gyfer Cynaliadwyedd (2023)	58
Tabl 21: Safleoedd a Sgorau Cymru ar gyfer Bwyd a Dŵr (2023)	59
Tabl 22: Sgorau a Safleoedd Cymru ar gyfer y Cwestiynau ynghylch Diddordeb Cyffredin Eraill	59
Tabl 23: Pa sgôr a roddodd Cymru iddi ei hun ar gyfer pob dimensiwn a phriodoledd, yn ôl safle a sgôr (2023)	61
Tabl B.1: Sgôr gymedrig a sgôr wedi'i throsi Cymru ar gyfer priodoleddau Allforion yn ôl cysylltiad a chyfarwyddineb â Chymru (2023)	70
Tabl B.2: Sgôr gymedrig a sgôr wedi'i throsi Cymru ar gyfer priodoleddau Llywodraethu yn ôl cysylltiad a chyfarwyddineb â Chymru (2023)	71

Tabl B.3: Sgôr gymedrig a sgôr wedi'i throsi Cymru ar gyfer priodoleddau Diwylliant yn ôl cysylltiad a chyfarwyddineb â Chymru (2023)	73
Tabl B.4: Sgôr gymedrig a sgôr wedi'i throsi Cymru ar gyfer priodoleddau Pobl yn ôl cysylltiad a chyfarwyddineb â Chymru (2023)	74
Tabl B.5: Sgôr gymedrig a sgôr wedi'i throsi Cymru ar gyfer priodoleddau Twristiaeth yn ôl cysylltiad a chyfarwyddineb â Chymru (2023)	76
Tabl B.6: Sgôr gymedrig a sgôr wedi'i throsi Cymru ar gyfer priodoleddau Mewnfudo a Buddsoddi yn ôl cysylltiad a chyfarwyddineb â Chymru (2023).....	78
Tabl B.7: Sgôr gymedrig a sgôr wedi'i throsi Cymru ar gyfer cwestiynau ynghylch diddordeb cyffredin sy'n ymwneud â chynaliadwyedd yn ôl cysylltiad a chyfarwyddineb â Chymru (2023)	80
Tabl B.8: Sgôr gymedrig a sgôr wedi'i throsi Cymru ar gyfer cwestiynau ynghylch diddordeb cyffredin sy'n ymwneud â bwyd a dŵr yn ôl cysylltiad a chyfarwyddineb â Chymru (2023).....	81
Tabl B.9: Sgôr gymedrig a sgôr wedi'i throsi Cymru ar gyfer cwestiynau ynghylch diddordeb cyffredin eraill yn ôl cysylltiad a chyfarwyddineb â Chymru (2023)	82

Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 1: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023, Map o'r 20 o Wledydd Panel Craidd	13
Ffigur 2: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023, Map o 60 Cenedl y Mynegai a Fesurwyd, fesul Rhanbarth.....	16
Ffigur 3: Sgôr gyffredinol Cymru yn y Mynegai Brandiau Cenhedloedd (2020 i 2023).....	22
Ffigur 4: Safle Cyffredinol Cymru yn yr MBC Fesul Gwlad Banel Graidd (2023)	24
Ffigur 5: Sgôr Gyffredinol Cymru yn yr MBC Fesul Rhanbarth Panel Craidd (2023)	25
Ffigur 6: Cyfarwyddineb â Chymru yn ôl Gwlad Banel (%) (2023).....	27
Ffigur 7: Ffafrioldeb tuag at Gymru, sgôr gymedrig y gwledydd panel (2023).....	29
Ffigur 8: Ffafrioldeb tuag at Gymru, safle'r gwledydd panel (2023).....	30
Ffigur 9: Ffafrioldeb tuag at Gymru yn ôl Cyfarwyddineb â Chymru (2023)	31
Ffigur 10: Safleoedd Cyffredinol Cymru yng Nghyswllt y Mynegai a'r Dimensiynau (2023) .	33
Ffigur 11: Sgorau Cyffredinol Cymru yng Nghyswllt y Mynegai a'r Dimensiynau (2023)	34
Ffigur 12: Safleoedd Cyffredinol Cymru yng Nghyswllt y Mynegai a'r Dimensiynau (2020 a 2023).....	35
Ffigur 13: Sgorau Cyffredinol Cymru yng Nghyswllt y Mynegai a'r Dimensiynau (2020 a 2023).....	36
Ffigur 14: Mesur Enw Da Byd-eang Cymru, 2023.....	37
Ffigur 15: Enw da Cymru ar draws y 23 o briodoleddau yn ôl safle (2020 a 2023).....	55
Ffigur 16: Enw da Cymru ar draws y 23 o briodoleddau yn ôl sgôr (2020 a 2023)	57

1. Cefndir

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu casgliadau tanysgrifiad Llywodraeth Cymru i Fynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 er mwyn mesur enw da Cymru ar lefel ryngwladol a domestig. Arolwg panel byd-eang ar-lein a gynhelir yn flynyddol yw'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd, ac mae'n archwilio delwedd 60 o genhedloedd. Yn 2023, cafodd y Mynegai ei gynnal mewn 20 o wledydd panel craidd. Roedd y gwledydd panel craidd hynny'n cynrychioli economïau datblygedig o bwys ac economïau newydd sy'n chwarae rôl bwysig ac amrywiol o safbwynt masnach a chysylltiadau rhyngwladol ac o safbwynt llif gweithgareddau ym maes busnes, diwylliant a thwristiaeth.
- 1.2 Yn 2023, cafodd Cymru ei chynnwys ym Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt-Ipsos. Mae'r casgliadau ar gyfer Cymru a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu safbwyntiau a barn poblogaeth ar-lein yn yr 20 o wledydd panel craidd yn ystod cyfnod y gwaith maes, a dylid eu hystyried yn gip ar y canfyddiadau ar y pryd.
- 1.3 Nod y Mynegai yw asesu enw da a delwedd gyffredinol gwlad ar draws chwe dimensiwn cymhwysedd cenedlaethol sy'n cael eu trin yn gyfartal. Dyma'r chwe dimensiwn: 'Allforion', 'Llywodraethu', 'Diwylliant', 'Pobl', 'Twristiaeth' a 'Mewnfudo a Buddsoddi'. Roedd cynnwys Cymru ym Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 yn seiliedig ar ddwy elfen: sut y caiff Cymru ei gweld gan sampl ar-lein o ymatebwyr o'r 20 o wledydd panel craidd; a sut y caiff Cymru ei gweld gan sampl ar-lein o ymatebwyr sy'n byw yng Nghymru.
- 1.4 Mae'r modd y caiff gwlad ei gweld ar lefel ryngwladol yn gallu effeithio ar ei chysylltiadau â gwledydd eraill ac ar ei hymdrechion ym maes busnes, masnach a thwristiaeth. Gan gydnabod hynny, mae [Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru \(LIC 2020\)](#) yn disgrifio Cymru fel gwlad fach gydag uchelgais mawr. Mae'r Strategaeth yn nodi tri nod craidd a'i gweledigaeth ar lefel ryngwladol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, er mwyn helpu Cymru i fod mewn sefyllfa i allu ymdopi â heriau'r dyfodol; sef: codi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol; tyfu'r economi drwy gynyddu allforion a denu

buddsoddiadau o'r tu allan; a sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

- 1.5 Nod [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#) (2015) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn nodi pum Ffordd o Weithio ar gyfer y cyrff cyhoeddus a restrir er mwyn gwireddu'r weledigaeth a nodir dan saith Nod Llesiant y Ddeddf; y weledigaeth yw helpu i "greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol" (LIC 2015). Mae'r nodau sy'n ymwneud â sicrhau 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang' a 'Cymru lewyrchus', er enghraifft, yn amcanion sylfaenol y llywodraeth dan y Ddeddf; a nodwyd bod annog y cyhoedd i gyfranogi yn allweddol er mwyn cyflawni'r saith nod.
- 1.6 Wrth ymateb i'r nod sy'n ymwneud â sicrhau 'Cymru lewyrchus', mae [Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi](#) gan Lywodraeth Cymru yn ceisio gwella strwythurau economaidd Cymru. Yn ogystal â chyfeirio at heriau strwythurol enfawr o fewn economi Cymru, caiff heriau allanol eu nodi hefyd, megis: ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE); y cyfleoedd a'r heriau wrth i Gymru newid i economi carbon isel; a phwysigrwydd meithrin brand unedig ar gyfer Cymru fel lle i fuddsoddi, gweithio, byw ac astudio ynddo ac i ymweld ag ef.
- 1.7 Mewn cyd-destun byd-eang cyfnewidiol, sy'n cynnwys yr ansicrwydd sy'n deillio o effeithiau digwyddiadau byd-eang, mae angen deall yn well sut y caiff Cymru ei gweld gan wledydd eraill. Mae pwysoliad chwe dimensiwn cymhwysedd cenedlaethol y Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn gyfartal. Yn unigol, mae'n bosibl bod y casgliadau ynghylch safle a sgorau ar gyfer Cymru yn cyfleu gwahanol negeseuon am enw da Cymru. Gyda'i gilydd, mae'r safle a'r sgorau yn rhoi darlun cyffredinol o enw da gwlad:
- Mae'r **safe** yn rhoi gwybodaeth am enw da gwlad o'i chymharu â gwledydd eraill a gall newid dros gyfnod ar sail perfformiad gwledydd eraill.
 - Gellir ystyried bod y **sgôr** yn ddangosydd o enw da gwlad, a gellir ei defnyddio i olrhain enw da gwlad dros amser.

- 1.8 Mae data'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn rhoi darlun sydyn o agweddau pobl at Gymru a'u canfyddiadau o Gymru. Gall data fel hyn am agweddau wella dealltwriaeth o sut y caiff Cymru ei gweld ar lefel ryngwladol a beth yw barn pobl yng Nghymru am y wlad y maent yn byw ynddi, gan helpu i feithrin dealltwriaeth well o enw da Cymru yn fyd-eang ac yn fewnol.
- 1.9 Nid yw'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn werthusiad o Lywodraeth Cymru nac o unrhyw asiantaeth gyflawni/cangen o weithgarwch llywodraeth ac nid yw'n ddangosydd o berfformiad y llywodraeth. Arolwg byr am Gymru, yn ei ystyr ehangaf, yw'r Mynegai. Dylai'r data gael ei ddarllen yn ei gyd-destun a'i ddeall ochr yn ochr â gwybodaeth arall am y modd y mae nodau Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni. Caiff rhagor o fanylion am ystyriaethau a chyfyngiadau data sy'n ymwneud â'r ymchwil eu darparu yn yr adran Methodoleg.

Strwythur yr Adroddiad

- 1.10 Dyma strwythur yr adroddiad hwn:
- Roedd y paragraffau blaenorol ynghylch Cefndir yn cyflwyno gwybodaeth gyd-destunol am y rhesymau dros gynnwys Cymru ym Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023.
 - Mae'r adran Methodoleg yn cynnwys nodau ac amcanion a dull methodolegol yr ymchwil ynghyd â chrynodeb o ystyriaethau a chyfyngiadau data y dylid eu cadw mewn cof wrth ddehongli'r casgliadau ar gyfer Cymru.
 - Mae'r adran Casgliadau yn amlinellu'r prif gasgliadau ar sail dadansoddiad o ddata cryno a ddarparwyd gan y cyflenwr, Ipsos USA.
 - Mae'r adran Sylwadau clo yn rhoi trosolwg o brif gasgliadau'r ymchwil ac yn amlinellu'r sylwadau clo ar gyfer Cymru.

2. Methodoleg

- 2.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r dull methodolegol a'r gweithdrefnau rheoli ansawdd a fabwysiadwyd gan Ipsos ar gyfer arolwg Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023. Caiff yr arolwg ei gynnal bob blwyddyn – cynhaliwyd yr un cyntaf yn 2008 – ac mae'r Mynegai yn archwilio delwedd 60 o genhedloedd. Bob blwyddyn, cynhelir arolwg ar-lein o oddeutu 60,000 o oedolion 18 oed a hŷn mewn 20 o wledydd panel craidd. Tanysgrifiodd Llywodraeth Cymru i gynnwys Cymru yn yr arolwg Mynegai Brandiau Cenhedloedd ar gyfer 2023. Mae trosolwg o holiadur Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 i'w weld yn Atodiad A.
- 2.2 Yn 2021, cafodd y Mynegai ei ehangu o 50 gwlad i 60 gwlad. Wrth i fwy o genhedloedd gymryd rhan, cafodd mwy o oedolion eu cynnwys yn yr arolwg. Yn 2020, roedd oddeutu 20,000 o oedolion wedi cymryd rhan yn yr arolwg, o'i gymharu â 60,000 yn 2023. Wrth gymharu safle cenhedloedd yn 2020 a 2023, dylid cofio'r ehangu a wnaed i'r Mynegai gan fod newidiadau mewn safleoedd wedi'u priodoli'n rhannol o leiaf i hynny.

Data'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd

- 2.3 Caiff tair lefel o ddata eu cyflwyno yn yr adroddiad hwn. Ar lefel y Mynegai, mae'r data yn mesur enw da a delwedd gyffredinol 60 o genhedloedd y Mynegai, sef cyfartaledd y chwe dimensiwn a gaiff eu hasesu yn yr arolwg: 'Allforion', 'Llywodraethu', 'Diwylliant', 'Pobl', 'Twristiaeth' a 'Mewnfudo a Buddsoddi'.
- 2.4 Ar lefel y dimensiynau, mae'r ffigyrau cyffredinol ar gyfer pob dimensiwn unigol yn gyfuniad o ganlyniadau priodoleddau, sydd wedi'u grwpio yn ôl thema'r dimensiwn. Er enghraifft, y ffigyrau ar gyfer 'Allforion' yw cyfartaledd yr ymatebion i'r tri chwestiwn sy'n ymwneud ag 'allforion'.
- 2.5 Ar lefel y priodoleddau, y ffigyrau yw'r canlyniadau o ddatganiadau unigol y gofynnwyd i'r ymatebwyr ymateb iddynt yn yr arolwg. Er enghraifft, un o'r tri chwestiwn/datganiad ar gyfer 'Allforion' oedd "Mae Cymru yn lle creadigol â syniadau blaengar a ffyrdd newydd o feddwl".
- 2.6 Mae disgrifiad o bob un o'r chwe dimensiwn a'u priodoleddau sylfaenol neu eu meysydd cwestiynau i'w weld yn Nhabl 1.

Tabl 1: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023, Amlinelliad o'r Dimensiynau

Dimensiwn	Y priodoleddau a fesurwyd
Allforion	<p>1) Barn yr ymatebwyr am gyfraniad cenedl at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg</p> <p>2) A yw'r ymatebwyr yn teimlo'n well/yn waeth ynglŷn â phrynu cynnyrch/gwasanaethau o wybod eu bod yn dod o bob un o'r cenhedloedd</p> <p>3) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn lle creadigol â syniadau blaengar a ffyrdd newydd o feddwl</p>
Llywodraethu	<p>1) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn cael ei llywodraethu'n gymwys ac yn onest</p> <p>2) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn parchu hawliau ei dinasyddion ac yn eu trin yn deg</p> <p>3) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn ymddwyn yn gyfrifol o safbwynt heddwch a diogelwch rhyngwladol</p> <p>4) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn gwarchod yr amgylchedd</p> <p>5) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn helpu i leihau tlodi yn y byd</p>
Diwylliant	<p>1) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod pob cenedl yn rhagori ym maes chwaraeon</p> <p>2) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod gan bob cenedl dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog</p> <p>3) A yw'r ymatebwyr yn ystyried bod pob cenedl yn lle diddorol/cyffrous ar gyfer diwylliant cyfoes megis cerddoriaeth, ffilmiau, celf a llenyddiaeth</p>
Pobl	<p>1) A oedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai pobl o bob cenedl yn estyn croeso cynnes iawn iddynt</p> <p>2) A fyddai'r ymatebwyr yn hoffi cael person o bob cenedl yn ffrind agos iddynt</p> <p>3) Parodrwydd yr ymatebwyr i gyflogi pobl â chymwysterau da o bob cenedl</p>
Twristiaeth	<p>1) A fyddai'r ymatebwyr yn hoffi ymweld â chenedl pe na bai arian yn broblem</p> <p>2) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod pob cenedl yn gyfoethog o safbwynt harddwch naturiol</p> <p>3) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn gyfoethog o safbwynt adeiladau hanesyddol a henebion</p>

	4) A yw'r ymatebwyr yn credu bod gan bob cenedl fywyd dinesig bywiog ac atyniadau trefol
Mewnfudo a Buddsoddi	<p>1) Parodrwydd yr ymatebwyr i fyw a gweithio am gyfnod sylweddol ym mhob cenedl</p> <p>2) A yw'r ymatebwyr yn ystyried pob cenedl yn fan lle mae ansawdd bywyd yn uchel</p> <p>3) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod pob cenedl yn lle da i astudio ar gyfer cymwysterau addysgol</p> <p>4) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod gan bob cenedl fusnesau yr hoffent fuddsoddi ynddynt</p> <p>5) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod pob cenedl yn poeni am gydraddoldeb mewn cymdeithas</p>

2.7 Caiff data ei gyflwyno mewn dau fformat yn yr adroddiad hwn:

- Safle: Cafodd 60 o genhedloedd eu cynnwys ym Mynegai Brandiau Cenedloedd 2023. Os caiff safle ei nodi ar gyfer Cymru mae'n cyfeirio at safle'r genedl rhwng 1 a 60, lle 1 yw'r safle uchaf, sy'n ei rhoi'n gyntaf o blith pob un o'r 60 cenedl a fesurwyd.
- Sgôr: Caiff sgôr y Mynegai ei chyflwyno fel cyfartaledd y chwe sgôr ar gyfer dimensiynau, allan o 100.
 - Ar lefel y dimensiynau, sgôr pob dimensiwn yw cyfartaledd y sgorau ar gyfer y datganiadau/cwestiynau ynghylch priodoleddau, wedi'i drosi'n raddfa o 1 i 100.
 - Cafodd rhwng tri a phump o briodoleddau eu defnyddio i gyfrifo'r sgorau ar gyfer pob dimensiwn (gweler Tabl 1). Ymatebodd yr ymatebwyr i'r datganiadau ar gyfer pob priodoledd a fesurwyd ar raddfa Likert o 1.0 i 7.0, lle 1.0 oedd yr isaf a'r gwaethaf a 7.0 oedd yr uchaf a'r gorau (a 4.0 oedd y safle niwtral yn y canol). Er mwyn ei gwneud yn haws darllen yr holl gasgliadau o'r datganiadau unigol ynghylch priodoleddau, a'r sgôr gyffredinol wedi'i mynegeoio ar gyfer pob dimensiwn, mae'r cyfartaledd cymedrig o'r raddfa Likert 7 pwynt ar gyfer pob un o'r priodoleddau wedi'i drosi yn sgôr o 1 i 100, sy'n adlewyrchu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan Ipsos-Mori i drosi sgorau ar gyfer priodoleddau yn sgôr gyffredinol ar

gyfer dimensiwn. Caiff y sgorau a droswyd eu hamlinellu yn Nhabl 2.¹ Caiff y cymedr graddfa Likert ar gyfer pob datganiad ynghylch priodoledd, yn ôl sgorau dimensiwn, ei gyflwyno yn Atodiad B.

- Ar ddechrau'r arolwg, gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio pa mor dda roeddent yn teimlo eu bod yn adnabod 60 o genhedloedd y Mynegai. Cafodd hyn ei fesur ar raddfa Likert 5 pwynt, lle 1.0 oedd y lleiaf cyfarwydd neu'r sgôr cyfarwyddineb isaf ("erioed wedi clywed amdani") a lle 5.0 oedd y fwyaf cyfarwydd neu'r sgôr cyfarwyddineb uchaf ("yn dda iawn") (gweler Atodiad A). Caiff cyfarwyddineb ei gyflwyno fel canran yr ymatebwyr a oedd o leiaf yn gwybod rhywfaint am Gymru.
- At hynny, gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio eu ffafrioldeb tuag at 60 o genhedloedd y Mynegai. Cafodd ffafrioldeb ei fesur ar raddfa Likert 7 pwynt, lle 1.0 oedd eithriadol o anffafriol neu'r sgôr ffafrioldeb isaf, a lle 7.0 oedd eithriadol o ffafriol neu'r sgôr ffafrioldeb uchaf. Caiff lefelau ffafrioldeb tuag at Gymru eu cyflwyno fel y sgôr gymedrig allan o 7.0.

Tabl 2: Trosi o Raddfa Likert 7 pwynt i Sgôr allan o 100

Graddfa Likert 7 pwynt	Sgôr wedi'i throsi, 1 i 100
1.0	1.00
2.0	17.50
3.0	34.00
4.0	50.50
5.0	67.00
6.0	83.50
7.0	100.00

Dyluniad y Sampl a Gwaith Maes

Gwledydd Panel yr Arolwg

- 2.8 Roedd tua 60,000 o ymatebwyr o 20 o wledydd panel craidd wedi cymryd rhan yn arolwg Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023. Cafodd yr 20 o wledydd panel craidd eu dewis i ddarparu cydbwysedd rhanbarthol a chymysgedd o

¹ Oherwydd bod sgorau'n cael eu trosi i raddfa o 1 i 100, ac nid graddfa o 0 i 100, ni ellir cyflwyno casgliadau ar gyfer dimensiynau a phriodoleddau ar ffurf canrannau.

wledydd ag incwm uchel ac incwm canolig, o ystyried y rôl gynyddol y mae cenhedloedd datblygol yn ei chwarae yn y byd. Roedd Ipsos hefyd wedi ystyried cysondeb rhwng un arolwg a'r llall. Roedd yr 20 o wledydd panel craidd yn 2023 yr un fath â blynyddoedd blaenorol y Mynegai.²

2.9 Caiff yr 20 o wledydd panel craidd eu rhestru fesul rhanbarth yn Nhabl 3.

Tabl 3: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023, yr 20 o Wledydd Panel Craidd fesul Rhanbarth

Rhanbarth	Is-ranbarth	Gwledydd
Gogledd America		Canada, Yr Unol Daleithiau
Ewrop	Gorllewin Ewrop Canol a Dwyrain Ewrop	Ffrainc, Sweden, Y Deyrnas Unedig, Yr Almaen, Yr Eidal
Asia a'r Môr Tawel		Gwlad Pwyl, Rwsia, Twrci
America Ladin		Awstralia, De Korea, India, Japan, Tsieina
Y Dwyrain Canol / Affrica		Brasil, Mecsico, Yr Ariannin De Affrica, Saudi Arabia

2.10 Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu safbwyntiau a barn poblogaethau ar-lein yn y gwledydd a restrir yn Nhabl 3.

2.11 Mae map sy'n nodi'r 20 o wledydd panel craidd fesul rhanbarth i'w weld yn Ffigur 1.

² Yn 2021 cymerodd Saudi Arabia le'r Aiff fel gwlad banel. Fel arall, nid yw'r 20 o wledydd panel craidd wedi newid ers Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020.

Ffigur 1: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023, Map o'r 20 o Wledydd Panel Craidd



20 o wledydd panel craidd:

Gogledd America

Yr Unol Daleithiau, Canada

Gorllewin Ewrop

Y Deyrnas Unedig, Yr Almaen, Ffrainc, Yr Eidal, Sweden

Canol a Dwyrain Ewrop

Rwsia, Gwlad Pwyl, Twrci

Asia a'r Môr Tawel

Japan, Tsieina, India, De Korea, Awstralia

America Ladin

Yr Ariannin, Brasil, Mecsico

Dwyrain Canol/Affrica

Saudi Arabia, De Affrica

© Ipsos 2023

Cymru fel yr 21^{ain} Wlad Banel

- 2.12 Cafodd Cymru ei chynnwys fel 21^{ain} wlad banel briodol ychwanegol er mwyn archwilio sut mae Cymru yn ei gweld ei hun. Cafodd sampl ychwanegol o 500 o ymatebwyr ymhlith y boblogaeth ar-lein yng Nghymru yr un cwestiynau â'r

gwledydd panel craidd.³ Nid yw'r ffigyrau hyn wedi'u cynnwys yn safleoedd a chyfanswm sgorau Cymru a gyflwynir yn yr adran Casgliadau isod. Cafodd yr arolwg ei gynnal yn ddwyieithog yng Nghymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cenhedloedd y Mynegai Brandiau Cenhedloedd

- 2.13 Roedd Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 yn mesur delwedd 60 o genhedloedd. Cafodd yr 60 o genhedloedd hynny eu cynnwys ar sail eu pwysigrwydd gwleidyddol ac economaidd, ac er mwyn adlewyrchu cydbwysedd rhanbarthol. Cafodd amrywiaeth systemau gwleidyddol ac economaidd ei ystyried hefyd, ond i raddau llai. Cafodd buddiannau'r sefydliadau sy'n tanysgrifio i'r Mynegai eu hadlewyrchu hefyd yn y cenhedloedd a ddewiswyd i fod yn rhan o'r Mynegai. Caiff yr 60 o genhedloedd sy'n rhan o'r Mynegai eu rhestru fesul rhanbarth yn Nhabl 4.


Tabl 4: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023, 60 Cenedl y Mynegai fesul Rhanbarth

Rhanbarth	Gwledydd
Gogledd America Gorllewin Ewrop	Canada, Yr Unol Daleithiau Awstria, Cymru, Ffrainc, Gogledd Iwerddon, Gwlad Belg, Gwlad Groeg, Gwlad yr Iâ, Iwerddon, Norwy, Portiwgal, Sbaen, Sweden, Y Deyrnas Unedig, Y Ffindir, Y Swistir, Yr Alban, Yr Almaen, Yr Eidal, Yr Iseldiroedd
Canol a Dwyrain Ewrop	Gwlad Pwyl, Hwngari, Rwmania, Rwsia, Slofacia, Twrci, Y Weriniaeth Tsiec, Yr Wcráin
Asia a'r Môr Tawel	Awstralia, De Korea, Fietnam, India, Indonesia, Japan, Seland Newydd, Singapore, Taiwan, Tsieina, Ynysoedd Philippines
America Ladin	Brasil, Chile, Colombia, Ecuador, Gweriniaeth Dominica, Mecsico, Panama, Periw, Yr Ariannin
Y Dwyrain Canol / Affrica	Botswana, De Affrica, Gwlad yr Iorddonen, Israel, Kenya, Morocco, Qatar, Saudi Arabia, Tanzania, Yr Aifft, Yr Emiradau Arabaidd Unedig

³ Ar gyfer Llywodraeth Cymru yn unig y mae'r data a gasglwyd gan yr ymatebwyr hyn. Felly, nid yw'r wybodaeth hon wedi'i rhannu ag unrhyw sefydliadau eraill a oedd wedi tanysgrifio i Fynegai Brandiau Cenhedloedd 2023.

2.14 Mae map sy'n nodi 60 cenedl y Mynegai fesul rhanbarth i'w weld yn Ffigur 2.

Ffigur 2: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023, Map o 60 Cenedl y Mynegai a Fesurwyd, fesul Rhanbarth



*Yn 2023 cymerodd Portiwgal, Rwmania, Y Philipinau a Iorddonen le Latfia, Palestina, Gwlad Thai a Serbia.

© Ipsos 2023

Dewis yr Ymatebwyr a Phwysoliad

2.15 Ar sail y paramedrau diweddaraf ar gyfer y boblogaeth ar-lein ym mhob gwlad, cafodd fframwaith y sampl ym mhob gwlad ei bwysoli er mwyn adlewyrchu prif nodweddion demograffig poblogaeth ar-lein y wlad honno yn 2023 - nodweddion megis oed, rhywedd ac addysg. At hynny, yn yr Unol Daleithiau, y

Deyrnas Unedig, De Affrica, India a Brasil, cafodd hil a/neu ethnigrwydd eu defnyddio i gydbwysu'r sampl.

- 2.16 Mae casgliadau Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 yn adlewyrchu safbwyntiau a barn y poblogaethau ar-lein yn y gwledydd a oedd yn cymryd rhan yn ystod cyfnod y gwaith maes.
- 2.17 Cafodd y pwysoliad ar gyfer pob gwlad ei gyfrifo gan adran fewnol Ipsos ar gyfer samplu ac ystadegau. Felly, cafodd pob gwlad ei thrin yn gyfartal yn y cyfartaledd byd-eang. Wrth gyfrifo cyfartaledd cyfanredol gwlad, cafodd pwysoliad "un wlad, un bleidlais" ei ddefnyddio oherwydd bod meintiau'r samplau a sicrhawyd yn amrywio ychydig ar draws gwledydd yr arolwg.

Recriwtio Paneli Ar-lein ar gyfer yr Arolwg

- 2.18 Cafodd paneli ar-lein mawr a oedd wedi'u recriwtio ymlaen llaw ac a oedd yn cael eu diweddarau'n rheolaidd eu defnyddio ar gyfer arolwg Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023. Cafodd gweithdrefnau rheoli ansawdd, megis camau mynych i wirio hunaniaeth yr ymatebwyr, eu rhoi ar waith (gweler paragraff 2.17).
- 2.19 Gan ddefnyddio ystadegau ynghylch y boblogaeth ar-lein ym mhob un o'r gwledydd panel craidd, cafodd fframwaith y sampl ym mhob gwlad ei haenu gan chwe chell sampl: dynion 18-34 oed, 35-54 oed, a 55+ oed, a menywod 18-34 oed, 35-54 oed, a 55+ oed. Ar gyfer pob cell, cafodd hapsamplau atblygedig eu llunio mewn modd cymesur a chafodd gwahoddiadau eu hanfon drwy e-bost i wahodd panelwyr i gymryd rhan yn yr arolwg.
- 2.20 Ar draws 20 o wledydd panel craidd, cafodd y rhestr o 60 cenedl y Mynegai eu dyrannu ar hap i'r ymatebwyr. Rhoddodd pob un o'r ymatebwyr sgôr ar gyfer 10 o 60 cenedl y Mynegai. O ganlyniad, cafodd pob un o genhedloedd y Mynegai tua 500 o sgorau fesul gwlad banel graidd.

Gwaith maes yr arolwg ac ymateb

- 2.21 Ar draws yr 20 o wledydd panel craidd, cafodd arolwg Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 ei gwblhau gan gyfanswm o 60,072 o ymatebwyr. Ym mhob un o'r gwledydd panel craidd, cymerodd o leiaf 3,000 o oedolion (18 oed neu hŷn) a oedd yn defnyddio'r rhyngwyd ran yn yr arolwg.

2.22 Cafodd y gwaith maes ei gyflawni rhwng 27 Mehefin a 3 Awst 2023 yn achos pob un o'r 20 o wledydd panel craidd a'r gwledydd panel priodol ychwanegol (ee Cymru).

Rheoli ansawdd y gwaith maes

2.23 Caiff yr arolygon ar-lein eu hunanweinyddu, felly mae'r risg y gallai ymatebwyr wneud camgymeriadau neu ffugio gwybodaeth yn uwch yn achos yr arolygon hynny nag yn achos arolygon dros y ffôn neu wyneb yn wyneb a gaiff eu gweinyddu gan gyfwelwyr sydd wedi'u hyfforddi. Er mwyn helpu i leihau'r risg honno, cynhaliodd Ipsos brosesau dilysu a glanhau data yn rhan o'i broses ar gyfer rheoli ansawdd yr arolwg. Cafodd "gwibwyr" (ymatebwyr sy'n cwblhau'r arolwg mewn amser afresymol o gyflym) eu tynnu o'r sampl, yn ogystal ag ymatebwyr sy'n ymgymryd â "llinellau syth" (clicio drwy arolwg gan roi'r un ateb i bob eitem). Cafodd yr holiaduron gan ymatebwyr a oedd yn euog o wneud hynny eu tynnu allan o'r ffeil ddata a chafodd panelwyr eraill eu hychwanegu yn eu lle. At hynny, cafodd mesurau diogelwch eu rhoi ar waith ar lefel y panel, gan gynnwys dilysu cyfeiriadau IP, canfod botiau, a sicrhau nad yw'r un ymatebwyr yn ymateb fwy nag unwaith.

Cynnal a chadw'r paneli yn gyffredinol a rheoli ansawdd y paneli

2.24 Caiff arolwg y Mynegai Brandiau Cenhedloedd ei ddsbarthu drwy e-bost. Ar gyfer Mynegai 2023, roedd prosesau dilysu a glanhau llym ar waith er mwyn rheoli ansawdd y paneli ar-lein. Roedd y prosesau hynny'n cynnwys tynnu panelwyr diffygiol a negeseuon e-bost oedd wedi bownsio'n ôl allan o'r sampl. At hynny, roedd systemau monitro parhaus y paneli'n tynnu sylw at ymddygiad a allai fod yn dwyllodrus ar sail gweithgareddau a phatrymau cwblhau arolwg, a chafodd y panelwyr a oedd yn ymddwyn felly eu tynnu allan o'r sampl.

2.25 Fel rheol, roedd gweithredwyr y paneli'n defnyddio amrywiaeth o gymhellion, yn dibynnu ar y wlad banel. Roedd y cymhellion dan sylw'n cynnwys: rhoddion i elusen ar ran y panelwyr, swîps, pwyntiau, cardiau rhodd, gwobrau, cyfleoedd i lawrlwytho cerddoriaeth, a thaliadau ag arian parod.

Ystyriaethau Data sy'n Ymwneud â'r Ymchwil

2.26 Ceir rhai ystyriaethau data sy'n llywio'r modd y mae'r casgliadau wedi'u dadansoddi a'r modd yr adroddwyd yn eu cylch:

- Dechreuodd Cymru gymryd rhan yn y Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn 2020. Gan gofio hynny, dylai'r ymchwil gael ei hystyried yn ymchwil archwiliol. Mae'n cymryd amser i newid enw da rhywun.
- Mae'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn darparu darlun sydyn o gyfarwyddineb ymatebwyr â chenedl a'u canfyddiadau ohoni ar sail ystod eang o fesurau (gweler Atodiad A). Mae'r dadansoddiad yn darparu cyfres y gellir ei chyffredinoli o gasgliadau ynghylch lefelau ymwybyddiaeth fyd-eang a safbwyntiau er mwyn rhoi asesiad o enw da brand cenedl. Fodd bynnag, nid yw'r Mynegai yn archwilio pam y mae ymatebwyr yn teimlo felly nac yn archwilio pam y mae newidiadau i enw da yn digwydd dros sawl blwyddyn.
- Cafodd ymatebwyr o Gymru eu cynnwys mewn dau o'r paneli yn 2023 a oedd yn asesu enw da gwledydd: 500 o ymatebwyr yn yr elfen o'r ymchwil a oedd yn ymwneud â "chanfyddiadau Cymru o Gymru" (h.y. Cymru fel gwlad banel briodol ychwanegol); gyda 126 o ymatebwyr o Gymru hefyd ymhlith y 3000 (4%) a oedd yn rhan o sampl gwlad banel graidd y DU.
- Dim ond yn yr adran o gasgliadau sy'n dwyn y teitl "Canfyddiadau Cymru o Gymru" yr adroddir ynghylch y casgliadau am ganfyddiadau o Gymru ymhlith pobl sy'n byw yng Nghymru. Nid yw'r casgliadau o Gymru fel 21ain gwlad banel briodol ychwanegol wedi'u cynnwys yng nghasgliadau cyffredinol y Mynegai Brandiau Cenhedloedd. Caiff y gwledydd panel craidd eu rhestru yn Nhabl 3.
- Mae'r data yn dangos bod yr ymatebwyr a nododd eu bod wedi cael mwy o gysylltiad â Chymru yn tueddu i fod â delwedd fwy cadarnhaol o'r genedl; ond nid yw'r Mynegai yn ei gwneud yn bosibl darganfod pryd y digwyddodd y cysylltiad hwnnw.
- Oherwydd cwmpas y Mynegai a'r hyn y mae'n ymdrin ag ef, mae'r prif nodweddion demograffig yn gyfyngedig. Felly, rhoddwyd mwy o bwyslais ar y

berthynas rhwng pa mor gyfarwydd yw ymatebwyr â Chymru a'r sgorau maent yn eu rhoi i Gymru. Mae tablau sy'n amlinellu casgliadau Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 ynghylch y dimensiynau a'r priodoleddau ar gyfer Cymru fesul cyfarwyddineb a chysylltiadau presennol â Chymru i'w gweld yn Atodiad B.

- Nid yw sgôr uchel gan wlad banel graidd o reidrwydd yn gyfystyr â safle uchel gan y wlad honno, ac i'r gwrthwyneb.⁴ Mae'r safle yn rhoi gwybodaeth am enw da gwlad o'i chymharu â gwledydd eraill, ac felly mae'n ymateb i newidiadau yn y sampl o wledydd a werthusir, ond nid yw'r sgôr absoliwt yn gwneud hynny. Dylai'r sgorau a'r safleoedd gael eu hystyried gyda'i gilydd, oherwydd yn unigol mae'n bosibl y byddant yn cyfleu negeseuon gwahanol am ganfyddiadau o Gymru.
- Mae'r dadansoddiad wedi'i seilio ar ddata cryno cyfanredol sy'n deillio o'r ymatebion ac mae'n bosibl y bydd anghysondebau â'r data crai oherwydd, er enghraifft, yr angen i dalgrynnu neu gyfansymio. Mae'r sgorau wedi'u talgrynnu i un lle degol.
- Mae'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn asesu enw da gwlad ar draws chwe dimensiwn, sef 'Allforion', 'Llywodraethu', 'Diwylliant', 'Pobl', 'Twristiaeth' a 'Mewnfudo a Buddsoddi'. Fodd bynnag, mae'r dimensiynau a fesurir yn gysyniadau cymhleth ac, mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd eu terfynau'n gorgyffwrdd a/neu y byddant yn golygu rhywbeth gwahanol i'r ymatebwyr.
- Caiff y casgliadau ynghylch dimensiynau eu cyflwyno fel sgôr o 1 i 100, a gyfrifir fel cyfartaledd y sgorau a roddwyd ar gyfer y cwestiynau sylfaenol.⁵

⁴ Er enghraifft, ar gyfer enw da cyffredinol Cymru, rhoddodd India ei sgôr gyffredinol trydydd uchaf i Gymru, ond y safle a ddyfarnodd i Gymru oedd ei safle isaf (yn gydradd olaf â Rwsia).

⁵ Er enghraifft, caiff y dimensiwn 'Allforion' ei gyfrifo ar sail cyfartaledd sgôr ei briodoleddau cyfansoddol neu sylfaenol, ac yn benodol yr ymatebion i dri chwestiwn: 1) safbwyntiau ar gyfraniad gwlad at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg; 2) a yw gwybod ble y caiff cynnyrch ei wneud yn cynyddu neu'n lleihau'r tebygolrwydd y bydd yn cael ei brynu (caiff hynny ei alw hefyd yn 'effaith gwlad tarddiad'); a 3) y graddau y caiff gwlad ei chydabod yn lle creadigol â syniadau blaengar a ffyrdd newydd o feddwl.

3. Casgliadau

Safle cyffredinol Cymru yn Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023SM

- 3.1 Mae'r Mynegai yn cynnwys chwe dimensiwn. Mae'r sgorau a gaiff cenedl ar gyfer y chwe dimensiwn yn pennu sgôr a safle cyffredinol y genedl. Yn 2023, roedd Cymru yn yr 23^{ain} safle yn gyffredinol allan o 60 o wledydd, sy'n ei gosod yn hanner uchaf y Mynegai Brandiau Cenhedloedd.⁶ Sgôr gyffredinol Cymru yn y Mynegai oedd 62.4 allan o 100.⁷ Mae'r sgôr yma dair dengradd yn is na'r wlad oedd â'r sgôr uchaf, a phum dengradd uwchben y wlad oedd â'r sgôr isaf.⁸ Ar ben hynny, mae sgôr gyffredinol Cymru yn uwch na chanolbwynt y sgorau uchaf ac isaf (59.2).⁹

Tabl 5: Safle cyffredinol Cymru yn y Mynegai Brandiau Cenhedloedd (2020 i 2023)

Mesur	2020	2021	2022	2023
Safle	21	22	22	23

- 3.2 Mae Tabl 5 yn dangos safle cyffredinol Cymru yn y Mynegai Brandiau Cenhedloedd rhwng 2020 a 2023. Mae ei safle wedi aros yn weddol sefydlog, ond symudodd i lawr o'r 21^{ain} safle yn 2020 i'r 23^{ain} safle yn 2023. Dylid nodi mai dim ond 50 o genhedloedd a gymerodd ran yn y Mynegai yn 2020, ond mae 60 o genhedloedd wedi bod yn cymryd rhan bob blwyddyn ers 2021. Mae newidiadau i safle Cymru rhwng 2020 a 2023 wedi'u priodoli'n rhannol o leiaf i ehangu'r Mynegai yn ystod y cyfnod hwn.


⁶ Dyma'r gwledydd a oedd ymysg y deg uchaf yn 2023, o'r brig i lawr: Japan (1), Yr Almaen (2), Canada (3), Y Deyrnas Unedig (4), Yr Eidal (5), Yr Unol Daleithiau (6), Y Swistir (7), Ffrainc (8), Awstralia (9), a Sweden (10). Ni ellir cyhoeddi gwledydd sydd â safleoedd 11 neu is o dan amodau cytundeb tanysgrifio'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd.

⁷ Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i un lle degol.

⁸ Mae dengradd yn ddull meintiol o rannu cyfres o ddata ynghylch safleoedd yn 10 is-adran sydd yr un mor fawr â'i gilydd. Mae dengradd yn rhoi'r data mewn trefn o'r isaf i'r uchaf, ar raddfa o un i 10 lle mae pob rhif olynol yn cyfateb i gynnydd o 10 pwynt canrannol.

⁹ Y canolbwynt y cyfeirir ato yma yw'r 50^{fed} dengradd.

Ffigur 3: Sgôr gyffredinol Cymru yn y Mynegai Brandiau Cenhedloedd (2020 i 2023)



- 3.3 Mae Ffigur 3 yn dangos sgorau cyffredinol Cymru yn y Mynegai Brandiau Cenhedloedd rhwng 2020 a 2023. Mae sgorau wedi aros yn weddol sefydlog yn ystod y cyfnod hwn, gyda Chymru'n cael ei sgôr uchaf o 62.5 yn 2021. Roedd y sgorau yn 2022 a 2023 ychydig yn is na'r sgôr a gafwyd yn 2021, ond roedd yn uwch na'r sgôr a gafwyd yn 2020 (59.8). Ar ben hynny, roedd sgôr Cymru yn 2023 (62.4) yn uwch na'i sgôr yn 2022 (61.9).
- 3.4 Roedd safle cyffredinol Cymru yn y Mynegai yn 2023 ddau le yn is o'i gymharu â 2020 (21ain safle). Fodd bynnag, yn 2023 gwelwyd cynnydd yn sgôr gyffredinol Cymru yn y Mynegai, o 59.8 yn 2020. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd gwahaniaethu rhwng safleoedd a sgorau. Nid yw newidiadau mewn safle o reidrwydd yn adlewyrchu newidiadau mewn sgorau, ac i'r gwrthwyneb, a gall safleoedd a sgorau gyflwyno negeseuon gwahanol am enw da Cymru. Felly, mae'n bwysig ystyried sgorau a safleoedd gyda'i gilydd er mwyn deall y casgliadau cyffredinol. Ar ben hynny, er bod sgôr Cymru yn y Mynegai wedi cynyddu 0.5 pwynt rhwng 2022 a 2023, mae'r cynnydd hwn yn is na'r cynnydd cyfartalog byd-eang o 0.9 pwynt ar draws cenhedloedd y

Mynegai, sy'n awgrymu nad yw'r cynnydd hwnnw o reidrwydd yn dangos newid go iawn mewn canfyddiadau byd-eang o Gymru.¹⁰


- 3.5 Mae trafodaeth bellach am safleoedd a sgorau Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 ar draws y 60 gwlad ar gael yn [Natganiad i'r Wasg Ipsos](#).

Enw da Cymru yn yr 20 o wledydd panel craidd


- 3.6 Mae Ffigur 4 yn dangos y safle cyffredinol yn y Mynegai lle cafodd Cymru ei gosod gan bob un o'r 20 o wledydd panel craidd. Ar gyfartaledd, Gorllewin Ewrop a Gogledd America oedd y rhanbarthau lle'r oedd enw da Cymru gryfaf. Daeth y sgorau uchaf i Gymru gan y DU, Awstralia, Sweden a Chanada. Cafodd Cymru ei gosod yn y 12^{fed} safle gan y DU (65.7), 17^{eg} safle gan Awstralia (65.5), a 21^{ain} safle gan Sweden (63.3) a Chanada (62.9).
- 3.7 Roedd enw da Cymru ar ei wannaf yn India a Rwsia (44^{fed} gan y ddau), ac yna yn Saudi Arabia (38^{ain}).

¹⁰ [The Anholt-Ipsos Nation Brands IndexSM Press Release Supplemental Report, November 2023](#), tudalen 13. Sylwch mai newidiadau mewn sgorau cyfartalog rhwng 2022 a 2023 yw'r rhain, yn hytrach na rhwng 2020 a 2023.

Ffigur 4: Safle Cyffredinol Cymru yn yr MBC Fesul Gwlad Banel Graidd (2023)



Ffigur 5: Sgôr Gyffredinol Cymru yn yr MBC Fesul Rhanbarth Panel Craidd (2023)



3.8 Mae Ffigur 5 yn dangos y sgorau cyffredinol a roddir ar gyfartaledd i Gymru gan bob rhanbarth. Ar gyfartaledd, y rhanbarthau a roddodd y sgorau uchaf i Gymru oedd y Dwyrain Canol ac Affrica (70.4), ac yna America Ladin (63.2), Gogledd America (61.8), Asia a'r Môr Tawel (61.6) a Gorllewin Ewrop (61.4). Canol a Dwyrain Ewrop oedd y rhanbarth a roddodd y sgôr isaf i Gymru ar gyfartaledd (60.0).

3.9 Yn wahanol i safleoedd, roedd y sgorau cyffredinol uchaf a gafodd Cymru yn 2023 wedi dod o Dde Affrica (71.2), Saudi Arabia (69.6), ac India (66.5). Er bod India a Saudi Arabia ymysg y rhai a oedd wedi rhoi rhai o'r sgorau isaf i Gymru, roeddent hefyd ymysg y rhai oedd wedi rhoi iddi rai o'i sgorau uchaf. Daeth sgorau cyffredinol isaf Cymru o Japan (51.3), Rwsia (54.9), a De Korea (58.3).

3.10 Nid yw'r gwledydd a roddodd y sgorau uchaf i Gymru yn 2023 wedi newid llawer o'r rhai a wnaeth hynny yn 2020. Fodd bynnag, fe ddaeth trydydd safle uchaf Cymru yn 2020 gan Ffrainc (18^{fed}), er bod Ffrainc wedi rhoi chweched safle uchaf Cymru iddi (22^{ain}) yn 2023. Yn benodol, rhoddodd Rwsia safle is o

lawer i Gymru yn 2023 o'i gymharu â 2020 (28^{ain} yn 2020 o'i gymharu â 44^{fed} yn 2023).¹¹ Ar ben hynny, roedd y rhan fwyaf o'r 20 o wledydd panel craidd yn 2023 wedi rhoi Cymru mewn safle is yn gyffredinol yn y Mynegai o'i gymharu â 2020. Dylid nodi hefyd mai 60 o genhedloedd a gymerodd ran yn y Mynegai yn 2023, ond dim ond 50 o genhedloedd oedd wedi cymryd rhan yn 2020. Felly, mae'n debygol bod newidiadau i safle Cymru rhwng 2020 a 2023 wedi'u priodoli'n rhannol o leiaf i ehangu'r Mynegai yn ystod y cyfnod hwn.

Ffatrioldeb a chyfarwyddineb

Cyfarwyddineb


- 3.11 Ar ddechrau arolwg y Mynegai yn 2023, gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio pa mor dda roeddent yn teimlo eu bod yn adnabod pob gwlad, gan ddefnyddio graddfa o 1.0 i 5.0.¹² Cyflwynir cyfarwyddineb cyffredinol fel canran yr ymatebwyr sy'n dweud eu bod yn adnabod Cymru 'yn dda iawn', 'yn weddol dda', neu 'ychydig'.¹³ Dywedodd 60% o'r ymatebwyr eu bod o leiaf ychydig yn gyfarwydd â Chymru, gan sicrhau'r 48^{fed} safle o blith 60 cenedl y Mynegai.
- 3.12 Mae Ffigur 6 yn dangos lefelau cyfarwyddineb â Chymru ar draws yr 20 o wledydd panel craidd. Roedd cyfarwyddineb â Chymru ar ei uchaf yn y DU (92%), ac yna Sweden (76%), Awstralia (74%), Saudi Arabia (73%), a Gwlad Pwyl (73%). Japan (33%) a De Korea (42%) oedd â'r lefelau isaf o gyfarwyddineb â Chymru.

¹¹ Nid oedd Saudi Arabia yn un o'r 20 o wledydd panel craidd ar gyfer y Mynegai yn 2020; felly ni ellir cymharu enw da Cymru yn Saudi Arabia yn 2023 a 2020.

¹²¹² Defnyddiodd arolwg y Mynegai yn 2020 gwestiwn gwahanol i bennu cyfarwyddineb. Yn 2020, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa mor gyfarwydd oeddent â phob gwlad, gan ddefnyddio graddfa o 1.0 i 5.0. Gallai'r ymatebwyr nodi eu bod 'yn gyfarwydd iawn' (5.0), 'yn gyfarwydd' (4.0), 'yn gwybod rhywfaint' (3.0), 'wedi clywed yr enw unig', neu 'heb glywed am' y wlad (1.0).

¹³ Yn yr un modd, roedd [Adroddiad 2020 ar gyfer Cymru](#) yn cyflwyno cyfarwyddineb cyffredinol fel canran yr ymatebwyr a oedd wedi dweud eu bod 'yn gyfarwydd iawn', 'yn gyfarwydd', neu 'yn weddol gyfarwydd' â Chymru.

Ffigur 6: Cyfarwyddineb â Chymru yn ôl Gwlad Banel (%) (2023)



3.13 Ar gyfartaledd, y rhanbarthau a oedd fwyaf cyfarwydd â Chymru oedd y Dwyrain Canol ac Affrica (69%), Gorllewin Ewrop (66%), a Chanol a Dwyrain Ewrop (63%). O'i gymharu, America Ladin (50%) ac Asia a'r Môr Tawel (53%) oedd y rhanbarthau â'r lefelau isaf o gyfarwyddineb â Chymru ar gyfartaledd.

Tabl 6: Cyfarwyddineb cyffredinol â Chymru (2020 a 2023)

Mesur	2020	2023	Newid
% yn gyfarwydd â Chymru	53%	60%	7%
Safle	45	48	-3

3.14 Mae Tabl 6 yn cymharu cyfarwyddineb cyffredinol â Chymru yn 2020 a 2023. Roedd canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod o leiaf yn gyfarwydd â Chymru yn 2023 saith pwynt canran yn uwch nag yn 2020. Fodd bynnag, roedd safle cyfarwyddineb cyffredinol Cymru dri lle yn is yn 2023, o'i gymharu â 2020.

3.15 Mae proffil y gwledydd a'r rhanbarthau sydd â'r lefelau cyfarwyddineb uchaf ac isaf â Chymru yn 2023 yn weddol debyg i 2020. Roedd y DU (93%), Awstralia

(66%) a Sweden (64%) ymysg y pum gwlad â'r lefelau cyfarwyddineb uchaf â Chymru; a Japan (22%) a De Korea (25%) oedd y gwledydd â'r lefelau isaf. Roedd gwledydd yng Ngorllewin Ewrop yn tueddu i fod yn fwy cyfarwydd â Chymru, ac eithrio Ffrainc, lle'r oedd 45% o'r ymatebwyr yn gyfarwydd â Chymru, a hynny yn 2020 ac yn 2023. Nododd Ffrainc lefelau isel o gyfarwyddineb ar draws cenhedloedd y Mynegai, a 47% oedd cyfartaledd ei chyfarwyddineb yn 2020 a 43% yn 2023. Asia a'r Môr Tawel ac America Ladin oedd y rhanbarthau â'r lefelau isaf o gyfarwyddineb â Chymru yn 2020.

- 3.16 Mae'n ymddangos bod y Dwyrain Canol ac Affrica yn fwy cyfarwydd â Chymru yn 2023, o'i gymharu â 2020; fodd bynnag, mae hyn yn cael ei sbarduno gan Saudi Arabia sydd wedi adrodd 73% o gyfarwyddineb â Chymru yn 2023. Yn 2020, nid oedd Saudi Arabia yn un o'r gwledydd panel craidd; ac o'r ddwy wlad banel graidd ar gyfer rhanbarth y Dwyrain Canol ac Affrica dim ond i'r ymatebwyr mewn un ohonynt y gofynnwyd am gyfarwyddineb â Chymru.¹⁴ Mae hyn yn dangos, er bod yr ymatebwyr yn y rhanbarth hwn wedi nodi lefelau cyfarwyddineb uchel â Chymru ar gyfartaledd yn 2023, nid yw hyn o reidrwydd yn adlewyrchu cynnydd go iawn mewn cyfarwyddineb â Chymru yn y rhanbarth ers 2020.

Ffatrioldeb


- 3.17 Roedd arolwg Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2023 hefyd wedi gofyn i ymatebwyr sgorio eu ffatrioldeb tuag at Gymru gan ddefnyddio graddfa o 1.0 i 7.0, gydag 1.0 yn golygu eithriadol o anffatriol a 7.0 yn golygu eithriadol o ffatriol. Cyflwynir ffatrioldeb gyffredinol fel y sgôr gymedrig ar y raddfa ffatrioldeb.
- 3.18 Sgôr gymedrig Cymru ar gyfer ffatrioldeb yn 2023 oedd 4.8, sydd fymryn yn uwch na phwynt canol y raddfa sef 4.0 (a oedd yn cynrychioli'r opsiwn niwtral 'ddim yn ffatriol nac yn anffatriol'). Yn gyffredinol, mae Cymru'n cael ei gweld mewn goleuni niwtral i gadarnhaol ar draws pob un o'r 20 o wledydd panel

¹⁴ Yn 2020, roedd rhanbarth y Dwyrain Canol ac Affrica yn cynnwys dwy wlad banel: De Affrica a'r Aifft. Ni ofynnwyd i ymatebwyr o'r Aifft ynghylch eu cyfarwyddineb â Chymru.

craidd, gyda dim un ohonynt yn rhoi sgôr ffafrioldeb o 4.0 neu is i Gymru [Ffigur 3.5].


3.19 Sicrhaodd Cymru safle cymharol uchel o ran ffafrioldeb sef 23^{ain} o blith y 60 o genhedloedd y Mynegai [Ffigur 7].¹⁵

Ffigur 7: Ffafrioldeb tuag at Gymru, sgôr gymedrig y gwledydd panel (2023)



¹⁵ Sgôr fynegai wedi'i throsi ar sail ymatebion y gwledydd panel craidd ar y raddfa o 1.0 i 7.0 ar gyfer ffafrioldeb.

Ffigur 8: Ffaffrioldeb tuag at Gymru, safle'r gwledydd panel (2023)



- 3.20 Mae Ffigurau 7 ac 8 yn dangos lefelau ffaffrioldeb tuag at Gymru ar draws yr 20 o wledydd panel craidd. Daeth y sgorau cymedrig uchaf o ran ffaffrioldeb tuag at Gymru gan y DU (5.5) ac Awstralia (5.1). Cafodd Cymru sgorau ffaffrioldeb o 5.0 hefyd gan Saudi Arabia, De Affrica, Sweden a Chanada. Daeth sgorau cymedrig isaf Cymru ar gyfer ffaffrioldeb o Japan (4.2), Rwsia (4.3), a De Korea (4.5). Roedd y tair sgôr gymedrig isaf ar gyfer ffaffrioldeb a gafodd Cymru i gyd yn uwch na phwynt canol 'niwtral' y raddfa.
- 3.21 Cafodd Cymru ei rhoi yn y safleoedd uchaf o ran ffaffrioldeb gan y DU (2^{il}), Awstralia (15^{fed}), a Chanada (17^{eg}). Cafodd ei rhoi yn y safleoedd isaf o ran ffaffrioldeb gan Rwsia (50^{fed}), India (45^{fed}), a Saudi Arabia (41^{fed}). Er bod Cymru wedi'i rhoi mewn safle isel o ran ffaffrioldeb gan Saudi Arabia, roedd hefyd wedi cael sgôr uchel o ran ffaffrioldeb gan yr un wlad, sy'n dangos pwysigrwydd gwahaniaethu rhwng sgorau a safleoedd.

Tabl 7: Ffaffrioldeb tuag at Gymru (2020 a 2023)


Mesur	2020	2023	Newid
Sgôr gymedrig o ran ffaffrioldeb	4.7	4.8	+0.1
Safle	21	23	-2

- 3.22 Mae Tabl 7 yn cymharu ffaffrioldeb tuag at Gymru ar draws 2020 a 2023. Mae sgôr gymedrig Cymru ar gyfer ffaffrioldeb wedi aros yn weddol sefydlog, ar ôl

codi ychydig o 4.7 yn 2020 i 4.8 yn 2023. Fodd bynnag, mae safle Cymru ar gyfer ffafrioldeb ddau le yn is yn 2023, o'i gymharu â 2020.

3.23 Mae proffiliau'r gwledydd a roddodd y sgorau a'r safleoedd uchaf ar gyfer ffafrioldeb i Gymru yn debyg ar draws 2020 a 2023. Yn 2020, rhoddodd y DU (5.4), Awstralia (5.0), a Tsieina (4.9) y sgorau cymedrig uchaf i Gymru ar gyfer ffafrioldeb, tra bo'r sgorau isaf yn dod o Dde Korea (4.0), Japan (4.2), a Thwrci (4.2). Yn yr un modd, y DU (3^{ydd}), Awstralia (13^{eg}), yr Almaen a Chanada (17^{eg} safle gan y ddau) oedd wedi gosod Cymru yn ei safle uchaf o ran ffafrioldeb yn 2020. Roedd India wedi gosod Cymru yn y 44^{fed} safle am ffafrioldeb yn 2020, dim ond un lle yn uwch nag yn 2023.

Ffigur 9: Ffafrioldeb tuag at Gymru yn ôl Cyfarwyddineb â Chymru (2023)




3.24 Mae Ffigur 9 yn dangos y berthynas rhwng ffafrioldeb tuag at Gymru a chyfarwyddineb â Chymru. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn fwy cyfarwydd â Chymru yn fwy ffafriol ar y cyfan, gyda'r rhai a ddywedodd eu bod yn adnabod Cymru'n "dda iawn" yn rhoi sgôr gymedrig o 6.1 ar gyfer ffafrioldeb, sy'n uwch o lawer na sgôr gymedrig gyffredinol Cymru o 4.8 ar gyfer ffafrioldeb.

Perfformiad dimensiynau'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd

Crynodeb


- 3.25 Mae'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn cynnwys chwe dimensiwn, ac mae'r rhain i gyd wedi'u pwysoli'n gyfartal ac yn cael eu defnyddio i gyfrifo sgorau a safleoedd cyffredinol y Mynegai. Dyma'r chwe dimensiwn: 'Allforion'; 'Llywodraethu'; 'Diwylliant'; 'Pobl'; 'Twristiaeth'; a 'Mewnfudo a Buddsoddi'.
- 3.26 Gellir gweld sgorau a safleoedd Cymru ar draws y chwe dimensiwn yn 2023 yn Ffigurau 10 ac 11. Mae trosolwg o'r casgliadau ar gael mewn ffeithlun yn Ffigur 14. Roedd safle Cymru yn gyson ar draws y dimensiynau, gyda'r safleoedd yn amrywio o'r 20^{fed} i'r 28^{ain} safle o blith 60 o genhedloedd. Cafodd Cymru ei gosod yn hanner uchaf cenhedloedd y Mynegai ar draws pob dimensiwn, ac ymysg y 25 uchaf ar gyfer hanner y dimensiynau.
- 3.27 Roedd safle uchaf Cymru yn ymwneud â 'Llywodraethu' lle cyrhaeddodd y 20^{fed} safle allan o 60 o wledydd. Roedd ei safle uchaf ond un yn ymwneud â 'Mewnfudo a Buddsoddi' (22^{ain} safle) a'r dimensiwn 'Pobl' wedyn (24^{ain} safle). Roedd safle isaf Cymru yn ymwneud â'r dimensiwn 'Diwylliant' lle cyrhaeddodd y 28^{ain} safle [Ffigur 10].

Ffigur 10: Safleoedd Cyffredinol Cymru yng Nghyswllt y Mynegai a'r Dimensiynau (2023)




3.28 Cafodd Cymru ei sgôr uchaf ar gyfer y dimensiwn 'Twristiaeth' (67.2), ac yna 'Pobl' (65.6) a 'Llywodraethu' a 'Diwylliant' (61.7 i'r ddau). Roedd sgôr isaf Cymru yng nghyswllt dimensiwn ar gyfer 'Allforion' (57.7) [Ffigur 11].

Ffigur 11: Sgorau Cyffredinol Cymru yng Nghyswllt y Mynegai a'r Dimensiynau (2023)




3.29 Mae Ffigur 12 yn cymharu safleoedd Cymru ar gyfer y dimensiynau ar draws 2020 a 2023. Cafodd Cymru ei gosod yn ei safleoedd uchaf yng nghyswllt yr un dimensiynau ar draws y ddau gyfnod dan sylw: 'Llywodraethu', 'Mewnfudo a Buddsoddi', a 'Phobl'. Yn yr un modd, y dimensiwn lle gosodwyd Cymru yn ei safle isaf oedd 'Diwylliant' yn 2020 ac yn 2023. Cafodd Cymru ei gosod ychydig yn is ar gyfer pob dimensiwn yn 2023, o'i gymharu â 2020, ac eithrio ar gyfer 'Diwylliant', lle cafodd ei gosod un lle yn uwch yn 2023.

Ffigur 12: Safleoedd Cyffredinol Cymru yng Nghyswilt y Mynegai a'r Dimensiynau (2020 a 2023)



Ffigur 13: Sgorau Cyffredinol Cymru yng Nghyswilt y Mynegai a'r Dimensiynau (2020 a 2023)



3.30 Mae Ffigur 13 yn cymharu sgorau Cymru ar gyfer dimensiwn ar draws 2020 a 2023. Cafodd Cymru ei sgorau uchaf ar gyfer 'Pobl', 'Twristiaeth' a 'Llywodraethu', yn 2020 ac yn 2023. Yn yr un modd, cafodd Cymru ei sgôr isaf ar gyfer 'Allforion' yn y ddau gyfnod dan sylw. Yn wahanol i safleoedd, cafodd Cymru sgorau uwch ar draws pob dimensiwn yn 2023. Fodd bynnag, dylid nodi bod sgorau dimensiwn wedi cynyddu, ar gyfartaledd, ar draws gwledydd y Mynegai o 2022 i 2023.¹⁶

¹⁶ [The Anholt-Ipsos Nation Brands IndexSM Press Release Supplemental Report, November 2023](#), tudalen 13. Sylwch mai newidiadau mewn sgorau cyfartalog rhwng 2022 a 2023 yw'r rhain, yn hytrach na rhwng 2020 a 2023.

Ffigur 14: Mesur Enw Da Byd-eang Cymru, 2023

Mesur Enw Da Byd-eang Cymru: 2023



Arolwg brand cenedl fyd-eang flynyddol yw'r Mynegai Brandiau Cenedlaethol Anholt-IpsosSM (NBI). Mesurodd NBI 2023 ganfyddiadau am 60 gwlad drwy gynnal cyfweiliadau ar-lein gyda 60,000 o oedolion ar draws 20 o wledydd panel craidd.

Mae'r NBI yn sgorio ac yn graddio enw da byd-eang y 60 gwlad sy'n cymryd rhan ar draws chwe dimensiwn cymhwysedd cenedlaethol: Diwylliant; Allforio; Llywodraethu; Mewnfudo a Buddsoddi; Pobl; a Thwristiaeth. Mae'r sgôr NBI gyffredinol yn gyfartaledd o'r sgoriau o'r dimensiynau hyn.

Mae data 2023 yn rhoi darlun o sut y caiff Cymru ei gweld yn fyd-eang. Mae'r safle yn ddangosydd sy'n seiliedig ar sgôr Cymru ar yr NBI, ac yn ein hysbysu o enw da Cymru o'i gymharu â'r gwledydd eraill a fesurwyd. Er nad yw'r sgôr yn ymateb i newidiadau yn y sampl o wledydd mesuredig, gellir ei defnyddio i olrhain enw da gwlad dros gyfnod o amser.

SGÔR A SAFLE CYFFREDINOL	Yn 2023, roedd safle uchaf Cymru yn gyffredinol o'r DU (12fed), ac yna Awstralia (17eg) a Sweden a Chanada (y ddau yn 21ain).	23ain allan o 60 gwlad 62.4 allan o 100
---------------------------------	---	--	---

Diwylliant

28ain allan
 o 60 gwlad

61.7 allan
 o 100

Allforion

27ain allan
 o 60 gwlad

57.7 allan
 o 100

Llywodraethu

20fed allan
 o 60 gwlad

61.7 allan
 o 100

Mewnfudo a Buddsoddi

22ain allan
 o 60 gwlad

60.7 allan
 o 100

Pobl

24ain allan
 o 60 gwlad

65.6 allan
 o 100

Twristiaeth

26ain allan
 o 60 gwlad

67.2 allan
 o 100

Allforion

- 3.31 Roedd y dimensiwn ‘Allforion’ yn archwilio canfyddiadau ymatebwyr o gynnyrch a gwasanaethau pob un o genhedloedd y Mynegai Brandiau Cenedloedd a gafodd eu mesur. Mae’r sgôr ar gyfer y dimensiwn ‘Allforion’ allan o 100, a chaiff ei chyfrifo gan ddefnyddio’r sgorau o dri chwestiwn a oedd yn ymdrin â’r priodoleddau canlynol:¹⁷
1. safbwyntiau ar “gyfraniad cenedl at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg”;
 2. a yw’r ymatebwyr yn teimlo’n well/yn waeth ynglŷn â “phrynu cynnyrch”, o wybod eu bod yn dod o genedl sy’n cael ei mesur (caiff hynny ei alw hefyd yn “effaith gwlad tarddiad”); a
 3. y graddau y caiff cenedl ei chydabod yn “lle creadigol â syniadau blaengar a ffyrdd newydd o feddwl”.
- 3.32 Yng nghyswllt ‘Allforion’ y cafodd Cymru ei sgôr isaf a’i safle isaf ond un ar gyfer dimensiwn; roedd ei sgôr o 57.7, o’i throosi, yn gyfystyr â’r 27^{ain} safle allan o 60 o wledydd.

Tabl 8: Safle Cymru ar gyfer Allforion (2020 a 2023)

Dimensiwn	2020	2023	Newid
Allforion	26	27	-1
Priodoleddau			
Cyfraniad at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg	27	32	-5
Prynu cynnyrch	22	24	-2
Lle creadigol â syniadau blaengar a ffyrdd newydd o feddwl	26	26	0

- 3.33 Mae Tabl 8 yn dangos safleoedd Cymru ar gyfer ‘Allforion’ yn 2020 a 2023. Yn 2023, roedd safle Cymru ar gyfer ‘Allforion’ yn ymddangos ymysg hanner

¹⁷ Ar gyfer pob priodoledd, cafodd y sawl a oedd yn cymryd rhan yn yr arolwg ddatganiad, a gofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad, ar sail graddfa Likert 7 pwynt lle 1.0 oedd yr isaf a’r gwaethaf a 7.0 oedd yr uchaf a’r gorau (a lle 4.0 oedd y safle niwtral yn y canol).

uchaf gwledydd y Mynegai, sef 27^{ain} safle o'r 60 o wledydd. Y safle uchaf y gosodwyd Cymru ynddo yng nghyswllt y priodoledd 'Allforion' oedd "prynu cynnyrch o'r wlad" (24^{ain}), tra'i bod wedi cael ei gosod yn ei safle isaf yng nghyswllt "cyfraniad at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg" (32^{ain}).

- 3.34 Cafodd Cymru ei gosod yn ei safle isaf ond un yng nghyswllt y dimensiwn 'Allforion', yn 2020 ac yn 2023. O'i gymharu â 2020, mae safle Cymru ar gyfer 'Allforion' un lle yn is yn 2023. Mae'r safleoedd ar gyfer priodoleddau 'Allforion' yn 2023 naill ai'n is na'r safleoedd yn 2020 neu'n gyson â nhw. Yn unol â 2023, cafodd Cymru ei gosod yn ei safle uchaf o ran priodoleddau 'Allforion' yn 2020 ar gyfer "prynu cynnyrch o'r wlad", a'i sgôr isaf ar gyfer "cyfraniad at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg".

Tabl 9: Sgorau Cymru ar gyfer Allforion (2020 a 2023)

Dimensiwn	2020	2023	Newid
Allforion	54.4	57.7	+3.3
Priodoleddau			
Cyfraniad at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg	51.8	55.0	+3.2
Prynu cynnyrch	56.0	59.4	+3.4
Lle creadigol â syniadau blaengar a ffyrdd newydd o feddwl	55.1	58.6	+3.5

- 3.35 Mae Tabl 9 yn cymharu sgorau Cymru ar gyfer 'Allforion' yn 2020 a 2023. Yn 2020 a 2023, cafodd Cymru ei sgôr isaf ar gyfer y dimensiwn 'Allforion'. Cafodd Cymru ei sgôr uchaf yng nghyswllt y priodoledd 'Allforion' ar gyfer "prynu cynnyrch o'r wlad", a'i sgôr isaf ar gyfer "cyfraniad at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg", sy'n adlewyrchu'r safleoedd ar gyfer y priodoleddau hyn.
- 3.36 Mae sgôr Cymru ar gyfer 'Allforion' 3.3 pwynt yn uwch yn 2023, o'i gymharu â 2020. Yn yr un modd, mae sgorau Cymru ar gyfer y priodoledd 'Allforion' rhwng 3.2 a 3.5 pwynt yn uwch yn 2023, o'i gymharu â 2020. Yn 2020 a 2023, cafodd Cymru ei sgôr uchaf o ran priodoleddau 'Allforion' ar gyfer "prynu

cynnyrch o'r wlad", a'i sgôr isaf ar gyfer "cyfraniad at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg".

- 3.37 Cafodd Cymru ei rhoi yn y safleoedd uchaf o ran 'Allforion' gan y DU (18^{fed}), Sweden (21^{ain}), Awstralia (22^{ain}) a Ffrainc (24^{ain}). Cafodd Cymru ei rhoi yn y safleoedd isaf gan India (46^{fed}), Rwsia (43^{fed}) a De Affrica (39^{ain}). Mae proffiliau'r gwledydd a roddodd y safleoedd isaf ac uchaf ar gyfer 'Allforion' i Gymru yn debyg ar draws 2020 a 2023.

Llywodraethu

- 3.38 Nod y dimensiwn 'Llywodraethu' oedd archwilio canfyddiadau o lywodraeth cenedl. Cafodd ei asesu ar sail sgorau a oedd yn deillio o bum datganiad ynghylch priodoleddau a oedd yn archwilio safbwyntiau'r ymatebwyr ynghylch a yw cenedl:
1. "yn cael ei llywodraethu'n gymwys ac yn onest";
 2. "yn parchu hawliau ei holl ddinasyddion ac yn eu trin yn deg";
 3. "yn ymddwyn yn gyfrifol ym meysydd heddwch a diogelwch rhyngwladol";
 4. "yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn gwarchod yr amgylchedd"; ac
 5. "yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn lleihau tlodi yn y byd".
- 3.39 'Llywodraethu' oedd y dimensiwn lle cafodd Cymru ei safle uchaf yn 2023; cafodd ei gosod yn y 20^{fed} safle allan o 60 cenedl y Mynegai. Sgôr Cymru ar gyfer 'Llywodraethu' oedd 61.7, sy'n golygu mai dyma'r dimensiwn â'r trydydd sgôr uchaf ar gyfer Cymru.¹⁸

¹⁸ Yn 2023, cafodd Cymru sgorau o 61.7 ar gyfer 'Llywodraethu' a 'Diwylliant', sy'n golygu bod y ddau wedi cael trydydd sgôr uchaf y dimensiwn ar gyfer Cymru.

Tabl 10: Safle Cymru ar gyfer Llywodraethu (2020 a 2023)

Dimensiwn	2020	2023	Newid
Llywodraethu	19	20	-1
Priodoleddau			
Yn cael ei llywodraethu'n gymwys ac yn onest	17	19	-2
Yn parchu hawliau ei dinasyddion ac yn eu trin yn deg	19	19	0
Heddwch a diogelwch rhyngwladol	19	21	-2
Yn gwarchod yr amgylchedd	18	20	-2
Yn helpu i leihau tlodi yn y byd	18	20	-2

- 3.40 Mae Tabl 10 yn dangos safleoedd Cymru ar gyfer 'Llywodraethu' yn 2020 a 2023. Yn 2023, roedd safle Cymru ar gyfer 'Llywodraethu' yn ymddangos ymysg hanner uchaf gwledydd y Mynegai, sef 20fed safle o'r 60 o wledydd. Y ddau briodoledd lle perfformiodd Cymru orau ar gyfer y dimensiwn 'Llywodraethu' yw "cael ei llywodraethu'n gymwys ac yn onest" ac "yn parchu hawliau ei dinasyddion ac yn eu trin yn deg" (19^{eg} safle ar gyfer y ddau). Er bod Cymru wedi cael ei gosod yn ei safle isaf o ran y priodoledd "ymddwyn yn gyfrifol ym meysydd heddwch a diogelwch rhyngwladol", roedd ei safle ar gyfer y priodoledd hwn yn dal i fod ymysg hanner uchaf gwledydd y Mynegai (21^{ain} allan o 60).
- 3.41 'Llywodraethu' oedd y dimensiwn lle cafodd Cymru ei safle uchaf yn 2020 a 2023. Mae safle Cymru ar gyfer 'Llywodraethu' un lle yn is yn 2023, o'i gymharu â 2020. Mae'r safleoedd ar gyfer priodoleddau 'Llywodraethu' yn 2023 naill ai'n is na'r safleoedd yn 2020 neu'n gyson â nhw. Yn yr un modd â'r safleoedd yng nghyswllt priodoleddau yn 2023, cafodd Cymru ei gosod yn ei safle uchaf o ran priodoleddau 'Llywodraethu' yn 2020 ar gyfer "yn cael ei llywodraethu'n gymwys ac yn onest". Cafodd ei gosod yn ei safle isaf yng nghyswllt priodoleddau'r dimensiwn 'Llywodraethu' yn 2020 ar gyfer "yn ymddwyn yn gyfrifol ym meysydd heddwch a diogelwch rhyngwladol" ac "yn parchu hawliau ei dinasyddion ac yn eu trin yn deg" (19^{eg} safle ar gyfer y ddau). Er bod y priodoledd cyntaf yn parhau i fod yn briodoledd 'Llywodraethu' yn y safle isaf ar gyfer Cymru yn 2023, roedd yr olaf o'r rhain ymysg y rhai yn y safleoedd uchaf yn 2023. Fodd bynnag, mae'n annhebygol bod hyn yn

adlewyrchu newid mewn canfyddiadau o Gymru rhwng 2020 a 2023, gan fod Cymru wedi cael ei gosod yn yr un safle (19^{eg}) ar gyfer “yn parchu hawliau ei dinasyddion ac yn eu trin yn deg” yn 2020 ac yn 2023.

Tabl 11: Sgorau Cymru ar gyfer Llywodraethu (2020 a 2023)

Dimensiwn	2020	2023	Newid
Llywodraethu	60.6	61.7	+1.1
Priodoleddau			
Yn cael ei llywodraethu'n gymwys ac yn onest	60.7	61.6	+0.9
Yn parchu hawliau ei dinasyddion ac yn eu trin yn deg	63.9	64.2	+0.3
Heddwch a diogelwch rhyngwladol	62.4	63.2	+0.8
Yn gwarchod yr amgylchedd	59.9	65.0	+5.1
Yn helpu i leihau tlodi yn y byd	56.1	60.9	+4.8

- 3.42 Mae Tabl 11 yn cymharu sgorau Cymru ar gyfer ‘Llywodraethu’ yn 2020 a 2023. Yn 2020 a 2023, cafodd Cymru ei sgôr uchaf ond dwy ar gyfer y dimensiwn ‘Llywodraethu’. Cafodd Cymru ei sgôr uchaf yng nghyswllt y priodoledd ‘Llywodraethu’ ar gyfer “yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn gwarchod yr amgylchedd”, a'i sgôr isaf ar gyfer “yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn lleihau tlodi yn y byd”, sy'n wahanol i safleoedd y priodoleddau.
- 3.43 Mae sgôr Cymru ar gyfer ‘Llywodraethu’ 1.1 pwynt yn uwch yn 2023, o'i gymharu â 2020. Yn yr un modd, mae sgorau Cymru ar gyfer y priodoledd ‘Llywodraethu’ rhwng 0.3 a 5.1 pwynt yn uwch yn 2023, o'i gymharu â 2020. Y cynnydd mwyaf mewn sgôr priodoledd ar gyfer Cymru oedd “yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn gwarchod yr amgylchedd”, sef y priodoledd lle gafodd Cymru'r sgôr uchaf yn 2023. Yn 2020, cafodd Cymru ei sgôr uchaf yng nghyswllt priodoleddau ar gyfer “yn parchu hawliau ei dinasyddion ac yn eu trin yn deg”, a'i sgôr isaf am “yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn lleihau tlodi yn y byd”. Cafodd Cymru ei sgôr isaf ar gyfer yr olaf o'r rhain yn 2020 ac yn 2023.
- 3.44 Yn 2023, cafodd Cymru ei rhoi yn ei safleoedd uchaf o ran ‘Llywodraethu’ gan y DU (5^{ed}), Awstralia (12^{fed}) a'r Almaen (15^{fed}). Cafodd Cymru ei rhoi yn ei safleoedd isaf gan Rwsia (45^{fed}), India (42^{fed}) a Saudi Arabia (31^{ain}). Mae

proffiliau'r gwledydd a roddodd y safleoedd isaf ac uchaf ar gyfer 'Llywodraethu' i Gymru yn debyg ar draws 2020 a 2023.

Diwylliant

3.45 Roedd y dimensiwn 'Diwylliant' yn archwilio canfyddiadau'r ymatebwyr o enw da diwylliannol cenedl, drwy ofyn tri chwestiwn a oedd yn archwilio safbwyntiau ynghylch:

1. "yn rhagori ym maes chwaraeon";
2. "yn meddu ar dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog"; ac
3. "yn lle diddorol a chyffrous ar gyfer diwylliant cyfoes megis cerddoriaeth, ffilmiau, celf a llenyddiaeth".

3.46 Yng nghyswllt y dimensiwn 'Diwylliant' y cafodd Cymru ei safle isaf yn 2023; roedd yn y 28^{ain} safle allan o 60 cenedl y Mynegai. Fodd bynnag, cafodd Cymru sgôr o 61.7 ar gyfer y dimensiwn, sy'n golygu mai dyma'r dimensiwn â'r trydydd sgôr uchaf ar gyfer Cymru, yn gydradd â 'Llywodraethu'.

Tabl 12: Safle Cymru ar gyfer Diwylliant (2020 a 2023)

Dimensiwn	2020	2023	Newid
Diwylliant	29	28	+1
Priodoleddau			
Yn rhagori ym maes chwaraeon	27	29	-2
Treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog	24	24	0
Diwylliant cyfoes	26	27	-1

3.47 Mae Tabl 12 yn dangos safleoedd Cymru ar gyfer 'Diwylliant' yn 2020 a 2023. Yn 2023, roedd safle Cymru ar gyfer 'Diwylliant' yn ymddangos yng ngwaelod hanner uchaf gwledydd y Mynegai, sef 28^{ain} safle o'r 60 o wledydd. Priodoledd Cymru yn y safle uchaf o dan y dimensiwn 'Diwylliant' yw "yn meddu ar dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog" (24^{ain} safle). Y priodoledd yn y safle isaf yw "yn rhagori ym maes chwaraeon" (29^{ain} safle).

3.48 Cafodd Cymru ei gosod yn ei safle isaf yng nghyswllt y dimensiwn 'Diwylliant', yn 2020 ac yn 2023. Fodd bynnag, roedd safle Cymru ar gyfer 'Diwylliant' un lle yn uwch yn 2023, o'i gymharu â 2020, sy'n golygu mai 'Diwylliant' yw'r unig

ddimensiwn lle gosodwyd Cymru mewn safle uwch yn 2023 nag yn 2020. O'i gymharu, roedd safleoedd Cymru ar gyfer priodoleddau 'Diwylliant' yn 2023 naill ai ychydig yn is na'r safleoedd yn 2020 neu'n gyson â nhw. "Treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog" oedd y priodoledd lle cafodd Cymru ei gosod yn ei safle uchaf (24^{ain}), ond "rhagori ym maes chwaraeon" oedd y priodoledd lle gosodwyd Cymru yn ei safle isaf (27^{ain}).

Tabl 13: Sgorau Cymru ar gyfer Diwylliant (2020 a 2023)

Dimensiwn	2020	2023	Newid
Diwylliant	57.9	61.7	+3.8
Priodoleddau			
Yn rhagori ym maes chwaraeon	53.3	57.9	+4.6
Treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog	63.4	66.2	+2.8
Diwylliant cyfoes	56.8	60.9	+4.1

- 3.49 Mae Tabl 13 yn cymharu sgorau Cymru ar gyfer 'Diwylliant' yn 2020 a 2023. Yn 2020, cafodd Cymru ei sgôr uchaf ond tair ar gyfer y dimensiwn 'Diwylliant', ond yn 2023 'Diwylliant' oedd y dimensiwn â'r sgôr uchaf ond dwy.¹⁹ Cafodd Cymru ei sgôr uchaf yng nghyswllt y priodoledd 'Diwylliant' ar gyfer "meddu ar dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog", a'i sgôr isaf ar gyfer "rhagori ym maes chwaraeon", yn unol â safleoedd y priodoleddau.
- 3.50 Mae sgôr Cymru ar gyfer 'Diwylliant' 3.8 pwynt yn uwch yn 2023, o'i gymharu â 2020. Yn yr un modd, mae sgorau Cymru ar gyfer y priodoledd 'Diwylliant' rhwng 2.8 a 4.6 pwynt yn uwch yn 2023, o'i gymharu â 2020. Y cynnydd mwyaf mewn sgôr priodoledd ar gyfer Cymru oedd y priodoledd â sgôr isaf, sef "rhagori ym maes chwaraeon". Yn 2020 a 2023, "meddu ar dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog" a "rhagori ym maes chwaraeon" oedd y priodoleddau â'r sgorau uchaf ac isaf gan Gymru yn y drefn honno.
- 3.51 Yn 2023, cafodd Cymru ei rhoi yn ei safleoedd uchaf o ran 'Diwylliant' gan y DU (13^{eg}), Ffrainc (14^{eg}), ac Awstralia (19^{eg}). Cafodd Cymru ei rhoi yn y safleoedd isaf gan Fecsico, India (45^{fed} gan y ddau), a Thwrci (39^{ain}). Mae

¹⁹ Yn 2020, cafodd Cymru sgorau o 57.9 ar gyfer 'Diwylliant', a 'Mewnffudo a Buddsoddi', sy'n golygu bod y ddau ddimensiwn wedi cael pedwerydd sgôr uchaf. Yn yr un modd, yn 2023, roedd sgorau Cymru ar gyfer 'Diwylliant' a 'Llywodraethu' yn 61.7.

proffiliau'r gwledydd a roddodd y safleoedd isaf ac uchaf ar gyfer 'Diwylliant' i Gymru yn debyg ar draws 2020 a 2023.

Pobl

- 3.52 Roedd y dimensiwn 'Pobl' yn archwilio canfyddiadau ymatebwyr o bobl gwlad, drwy ofyn tri chwestiwn a oedd yn ystyried:
1. cyfeillgarwch cenedl, drwy holi'r ymatebwyr p'un a oeddent yn teimlo y byddai "y bobl yn estyn croeso cynnes iawn [iddynt]" petaent yn ymweld â'r wlad;
 2. p'un a fyddai'r ymatebwyr yn "hoffi cael person o'r wlad hon yn ffrind agos iddynt"; a
 3. pa mor barod fyddai ymatebwyr i ystyried cyflogi unigolyn â chymwysterau da o'r wlad i lenwi swydd bwysig yn eu sefydliad.²⁰
- 3.53 Yng nghyswllt y dimensiwn 'Pobl' y cafodd Cymru ei gosod yn y safle uchaf ond dau; roedd yn y 24^{ain} safle allan o 60 cenedl y Mynegai. Cafodd Cymru hefyd ei sgôr uchaf ond un ar gyfer y dimensiwn 'Pobl', gyda sgôr o 65.6.

Tabl 14: Safle Cymru ar gyfer Pobl (2020 a 2023)

Dimensiwn	2020	2023	Newid
Pobl	21	24	-3
Priodoleddau			
Yn teimlo y byddai croeso iddynt wrth ymweld â'r wlad	21	22	-1
Yn hoffi cael person o'r wlad yn ffrind agos iddynt	22	24	-2
Parodrwydd i gyflogi pobl â chymwysterau da o'r wlad	20	24	-4

- 3.54 Mae Tabl 14 yn dangos safleoedd Cymru ar gyfer 'Pobl' yn 2020 a 2023. Yn 2023, roedd safle Cymru ar gyfer 'Pobl' yn ymddangos ymysg hanner uchaf gwledydd y Mynegai, sef 24^{ain} safle o 60. Cafodd Cymru ei gosod yn y safle uchaf o ran y priodoledd "teimlo y byddai croeso iddynt wrth ymweld â'r wlad" (22^{ain} safle), ond cafodd ei gosod mewn safle is ar gyfer y priodoleddau "yn

²⁰ Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymatebwyr yn gyntaf "Dychmygu [eu] bod yn rheolwr sydd angen llenwi swydd bwysig yn [eu] sefydliad".

hoffi cael person o'r wlad yn ffrind agos iddynt" a "parodrwydd i gyflogi pobl â chymwysterau da o'r wlad" (24^{ain} safle ar gyfer y ddau).

- 3.55 'Pobl' oedd y dimensiwn lle cafodd Cymru ei safle uchaf ond dau, a hynny yn 2020 ac yn 2023. Fodd bynnag, roedd safle Cymru dri lle yn is ar gyfer 'Pobl' yn 2023, o'i gymharu â 2020. Yn yr un modd, roedd safle Cymru yng nghyswllt y priodoledd 'Pobl' yn is yn 2023, o'i gymharu â 2020. Yn 2020, cafodd Cymru ei gosod yn y safle uchaf o ran priodoleddau ar gyfer "parodrwydd i gyflogi pobl â chymwysterau da o'r wlad" (20^{fed} safle), ond yn 2023 roedd hwn ymysg y priodoleddau â'r sgôr isaf ar gyfer Cymru (24^{ain} safle). Y priodoledd hwn hefyd a welodd y gostyngiad mwyaf mewn safleoedd rhwng 2020 a 2023. Y priodoledd yn y safle isaf ar gyfer Cymru yn 2020 oedd "hoffi cael person o'r wlad yn ffrind agos iddynt" (22^{ain} safle), a hwn hefyd yn un o'r priodoleddau yn y safleoedd isaf yn 2023 (24^{ain}).

Tabl 15: Sgorau Cymru ar gyfer Pobl (2020 a 2023)

Dimensiwn	2020	2023	Newid
Pobl	63.5	65.6	+2.1
Priodoleddau			
Yn teimlo y byddai croeso iddynt wrth ymweld â'r wlad	62.6	64.4	+1.8
Yn hoffi cael person o'r wlad yn ffrind agos iddynt	62.1	64.4	+2.3
Parodrwydd i gyflogi pobl â chymwysterau da o'r wlad	66.2	68.0	+1.8

- 3.56 Mae Tabl 15 yn cymharu sgorau Cymru ar gyfer 'Pobl' yn 2020 a 2023. Yn 2020 a 2023, cafodd Cymru ei sgôr uchaf ond un ar gyfer y dimensiwn 'Pobl'. Cafodd Cymru ei sgôr uchaf ar gyfer y priodoledd 'Pobl' ar gyfer "parodrwydd i gyflogi pobl â chymwysterau da o'r wlad", ond cafodd sgorau is ar gyfer "teimlo y byddai croeso iddynt wrth ymweld â'r wlad" a "hoffi cael person o'r wlad yn ffrind agos iddynt", sy'n debyg i safleoedd y priodoleddau.
- 3.57 Mae sgôr Cymru ar gyfer 'Pobl' 2.1 pwynt yn uwch yn 2023, o'i gymharu â 2020. Yn yr un modd, roedd sgorau Cymru ar gyfer y priodoledd 'Pobl' rhwng 1.8 a 2.3 pwynt yn uwch yn 2023, o'i gymharu â 2020. Y cynnydd mwyaf

mewn sgôr priodoledd ar gyfer Cymru oedd ar gyfer un o'r ddau briodoledd â'r sgôr isaf, sef "hoffi cael person o'r wlad yn ffrind agos iddynt". Yn debyg i 2023, yn 2020 cafodd Cymru sgôr uwch ar gyfer y priodoledd "parodrwydd i gyflogi pobl â chymwysterau da o'r wlad", o'i gymharu â'r ddwy sgôr is a gafodd ar gyfer "teimlo yn gyfforddus wrth ymweld â'r wlad" a "hoffi cael person o'r wlad yn ffrind agos iddynt".

- 3.58 Yn 2023, cafodd Cymru ei rhoi yn ei safleoedd uchaf o ran 'Pobl' gan y DU (9^{fed}), Awstralia (15^{fed}), yr Almaen a'r UDA (19^{eg} ar gyfer y ddau). Cafodd Cymru ei rhoi yn y safleoedd isaf gan Rwsia (49^{fed}), India (44^{fed}) a Saudi Arabia (39^{ain}). Mae proffiliau'r gwledydd a roddodd y safleoedd uchaf ac isaf ar gyfer 'Pobl' i Gymru yn debyg ar draws 2020 a 2023.

Twristiaeth

- 3.59 Roedd y dimensiwn ‘Twristiaeth’ yn archwilio canfyddiadau’r ymatebwyr o apêl cenedl o ran twristiaeth, drwy ofyn pedwar cwestiwn a oedd yn ystyried p’un a yw cenedl:
1. yn rhywle y byddai’r ymatebwyr yn hoffi ymweld ag ef “pe na bai arian yn broblem”;
 2. “yn gyfoethog o safbwynt harddwch naturiol”;
 3. “yn gyfoethog o safbwynt adeiladau hanesyddol a henebion”; ac
 4. “yn meddu ar fywyd dinesig bywiog ac atyniadau trefol”.
- 3.60 ‘Twristiaeth’ oedd y dimensiwn lle cafodd Cymru ei safle gorau ond tri. Cafodd Cymru ei gosod yn y 26^{ain} safle allan o 60 o genhedloedd y Mynegai. Fodd bynnag, roedd sgôr uchaf Cymru yng nghyswllt dimensiwn ar gyfer ‘Twristiaeth’, gyda sgôr o 67.2.

Tabl 16: Safle Cymru ar gyfer Twristiaeth (2020 a 2023)

Dimensiwn	2020	2023	Newid
Twristiaeth	25	26	-1
Priodoleddau			
Yn ymweld pe na bai arian yn broblem	21	23	-2
Yn gyfoethog o safbwynt harddwch naturiol	23	28	-5
Yn gyfoethog o safbwynt adeiladau hanesyddol a henebion	23	23	0
Bywyd dinesig bywiog ac atyniadau	31	30	+1

- 3.61 Mae Tabl 16 yn dangos safleoedd Cymru ar gyfer ‘Twristiaeth’ yn 2020 a 2023. Yn 2023, roedd safle Cymru ar gyfer ‘Twristiaeth’ yn ymddangos ymysg hanner uchaf gwledydd y Mynegai, sef 26^{ain} safle o 60. Roedd Cymru wedi cael ei gosod yn ei safle uchaf o ran y priodoledd “hoffi ymweld pe na bai arian yn broblem” ac “yn gyfoethog o safbwynt adeiladau hanesyddol a henebion” (23^{ain} safle ar gyfer y ddau). Y priodoledd yn y safle isaf gan Gymru oedd “bywyd dinesig bywiog ac atyniadau” (30^{ain} safle).

3.62 ‘Twristiaeth’ oedd y dimensiwn lle cafodd Cymru ei safle uchaf ond tri, a hynny yn 2020 a 2023. Mae safle Cymru yng nghyswllt dimensiwn ar gyfer ‘Twristiaeth’ un lle yn is yn 2020, o’i gymharu â 2023. Roedd Cymru wedi cael ei gosod mewn safleoedd is ar gyfer y priodoleddau “hoffi ymweld pe na bai arian yn broblem” ac “yn gyfoethog o safbwynt harddwch naturiol” yn 2023, o’i gymharu â 2020. Cafodd ei rhoi yn yr un safle yn 2020 a 2023 ar gyfer “Yn gyfoethog o safbwynt adeiladau hanesyddol a henebion” (23^{ain}), tra bo “bywyd dinesig bywiog ac atyniadau” wedi symud un safle yn uwch yn 2023 o’i gymharu â 2020. Fodd bynnag, roedd “bywyd dinesig bywiog ac atyniadau” yn parhau i fod yn y safle isaf gan Gymru, a hynny yn 2020 (31^{ain}) ac yn 2023 (30^{ain}). “Hoffi ymweld pe na bai arian yn broblem” oedd y priodoledd yn y safle uchaf gan Gymru yn 2020, sy’n debyg i 2023. Yr hyn sy’n nodedig yw bod safle Cymru yng nghyswllt “yn gyfoethog o safbwynt harddwch naturiol” bum lle yn is yn 2023 (28^{ain}) o’i gymharu â 2020 (23^{ain}).

Tabl 17: Sgorau Cymru ar gyfer Twristiaeth (2020 a 2023)

Dimensiwn	2020	2023	Newid
Twristiaeth	64.4	67.2	+2.8
Priodoleddau			
Yn ymweld pe na bai arian yn broblem	65.4	67.8	+2.4
Yn gyfoethog o safbwynt harddwch naturiol	68.0	69.6	+1.6
Yn gyfoethog o safbwynt adeiladau hanesyddol a henebion	63.5	67.3	+3.8
Bywyd dinesig bywiog ac atyniadau	60.7	64.2	+3.5

3.63 Mae Tabl 17 yn cymharu sgorau Cymru ar gyfer ‘Twristiaeth’ yn 2020 a 2023. Yn 2020 a 2023, cafodd Cymru ei sgôr uchaf ar gyfer y dimensiwn ‘Twristiaeth’. Cafodd Cymru ei sgôr uchaf yng nghyswllt y priodoledd ‘Twristiaeth’ ar gyfer “yn gyfoethog o safbwynt harddwch naturiol”, a’i sgôr isaf ar gyfer “bywyd dinesig bywiog ac atyniadau”. Roedd safle isaf Cymru hefyd yn ymwneud â’r priodoledd hwnnw.

3.64 Mae sgôr Cymru ar gyfer ‘Twristiaeth’ 2.8 pwynt yn uwch yn 2023, o’i gymharu â 2020. Yn yr un modd, roedd sgorau Cymru ar gyfer y priodoledd ‘Twristiaeth’ rhwng 1.6 a 3.8 pwynt yn uwch yn 2023, o’i gymharu â 2020. Y cynnydd

mwyaf mewn sgôr priodoledd ar gyfer Cymru oedd “yn gyfoethog o safbwynt adeiladau hanesyddol a henebion”. Yn 2020 a 2023, cafodd Cymru ei sgôr uchaf yng nghyswllt y priodoledd “yn gyfoethog o safbwynt harddwch naturiol”, a'i sgôr isaf ar gyfer y priodoledd “bywyd dinesig bywiog ac atyniadau”.

3.65 Yn 2023, cafodd Cymru ei rhoi yn ei safle uchaf ar gyfer ‘Twristiaeth’ gan y DU (9^{fed}), Awstralia (20^{fed}), Ffrainc a Chanada (21^{ain} ar gyfer y ddau). Cafodd Cymru ei rhoi yn ei safle isaf gan Rwsia (47^{fed}), Saudi Arabia (43^{fed}) ac India (41^{fed}). Mae proffiliau'r gwledydd a roddodd y safleoedd uchaf ac isaf ar gyfer ‘Twristiaeth’ i Gymru yn debyg ar draws 2020 a 2023.

Mewnfudo a Buddsoddi

3.66 Roedd y dimensiwn ‘Mewnfudo a Buddsoddi’ yn archwilio canfyddiadau o genedl o safbwynt ffyniant economaidd a chyfle cyfartal ac a yw'r genedl yn fan lle mae ansawdd bywyd yn uchel, drwy ofyn pum cwestiwn a oedd yn ystyried:

1. “parodrwydd yr ymatebwyr i fyw a gweithio am gyfnod sylweddol” yn y genedl;
2. a yw'r ymatebwyr yn ystyried bod y genedl yn “fan lle mae ansawdd bywyd yn uchel”;
3. a yw'r ymatebwyr yn teimlo bod y genedl yn “lle da i astudio ar gyfer cymwysterau addysgol”;
4. a yw'r ymatebwyr yn teimlo bod gan y genedl “fusnesau [yr hoffent] fuddsoddi ynddynt”; ac
5. a yw'r ymatebwyr yn teimlo bod y genedl yn “poeni am gydraddoldeb mewn cymdeithas”.

3.67 ‘Mewnfudo a Buddsoddi’ oedd y dimensiwn lle cafodd Cymru ei gosod yn ei safle uchaf ond un. Roedd yn yr 22^{ain} safle allan o 60 o genhedloedd y Mynegai. Fodd bynnag, gyda sgôr o 60.7, cafodd Cymru hefyd ei sgôr isaf ond un ar gyfer y dimensiwn ‘Mewnfudo a Buddsoddi’.

Tabl 18: Safle Cymru ar gyfer Mewnfudo a Buddsoddi (2020 a 2023)

Dimensiwn	2020	2023	Newid
Mewnfudo a Buddsoddi	20	22	-2
Priodoleddau			
Yn hoffi byw a gweithio yno	20	22	-2
Ansawdd bywyd	20	22	-2
Yn lle da i astudio ar gyfer cymwysterau addysgol	20	20	0
Yn meddu ar fusnesau i fuddsoddi ynddynt	23	26	-3
Yn poeni am gydraddoldeb mewn cymdeithas	19	20	-1

- 3.68 Mae Tabl 18 yn dangos safleoedd Cymru ar gyfer ‘Mewnfudo a Buddsoddi’ yn 2020 a 2023. Yn 2023, roedd safle Cymru ar gyfer ‘Mewnfudo a Buddsoddi’ yn ymddangos ymysg hanner uchaf gwledydd y Mynegai, sef yr 22^{ain} safle o 60. Roedd Cymru wedi cael ei gosod yn ei safle uchaf o ran y priodoledd “lle da i astudio ar gyfer cymwysterau addysgol” ac “yn poeni am gydraddoldeb mewn cymdeithas” (20^{fed} safle ar gyfer y ddau). Y priodoledd yn y safle isaf gan Gymru oedd “yn meddu ar fusnesau i fuddsoddi ynddynt” (26^{ain} safle).
- 3.69 ‘Mewnfudo a Buddsoddi’ oedd y dimensiwn lle cafodd Cymru ei safle uchaf ond un, a hynny yn 2020 a 2023. Mae safle Cymru yng nghyswllt dimensiwn ar gyfer ‘Mewnfudo a Buddsoddi’ ddau le yn is yn 2020, o’i gymharu â 2023. Yn 2023, roedd safleoedd Cymru ar gyfer priodoleddau naill ai ychydig yn is na’r safleoedd yn 2020 neu’n gyson â nhw. “Yn poeni am gydraddoldeb mewn cymdeithas” oedd y priodoledd yn y safle uchaf gan Gymru yn 2020 (19^{eg}), sy’n debyg i 2023 (20^{fed} safle). At hynny, “meddu ar fusnesau i fuddsoddi ynddynt” oedd y priodoledd yn y safle isaf gan Gymru yn 2020 (23^{ain}) ac yn 2023 (26^{ain}).

Tabl 19: Sgorau Cymru ar gyfer Mewnfudo a Buddsoddi (2020 a 2023)

Dimensiwn	2020	2023	Newid
Mewnfudo a Buddsoddi	57.9	60.7	+2.8
Priodoleddau			
Yn hoffi byw a gweithio yno	53.8	59.4	+5.6
Ansawdd bywyd	63.2	65.2	+2.0
Yn lle da i astudio ar gyfer cymwysterau addysgol	59.4	62.4	+3.0
Yn meddu ar fusnesau i fuddsoddi ynddynt	52.0	54.8	+2.8
Yn poeni am gydraddoldeb mewn cymdeithas	60.4	62.1	+1.7

- 3.70 Mae Tabl 19 yn cymharu sgorau Cymru ar gyfer ‘Mewnfudo a Buddsoddi’ yn 2020 a 2023. Yn 2020 a 2023, cafodd Cymru ei sgôr isaf ond un ar gyfer y dimensiwn ‘Mewnfudo a Buddsoddi’.²¹ Cafodd Cymru ei sgôr uchaf yng nghyswllt y priodoledd ‘Mewnfudo a Buddsoddi’ ar gyfer “ansawdd bywyd”, a’i sgôr isaf ar gyfer “meddu ar fusnesau i fuddsoddi ynddynt”. Roedd safle isaf Cymru hefyd yn ymwneud â’r priodoledd hwnnw.
- 3.71 Mae sgôr Cymru ar gyfer ‘Mewnfudo a Buddsoddi’ 2.8 pwynt yn uwch yn 2023, o’i gymharu â 2020. Yn yr un modd, roedd sgorau Cymru ar gyfer y priodoledd ‘Mewnfudo a Buddsoddi’ rhwng 1.7 a 5.6 pwynt yn uwch yn 2023, o’i gymharu â 2020. Y cynnydd mwyaf mewn sgôr priodoledd ar gyfer Cymru oedd “yn hoffi byw a gweithio yno”. Yn 2020 a 2023, cafodd Cymru ei sgôr uchaf yng nghyswllt y priodoledd “ansawdd bywyd”, a’i sgôr isaf ar gyfer y priodoledd “meddu ar fusnesau i fuddsoddi ynddynt”.
- 3.72 Yn 2023, cafodd Cymru ei rhoi yn ei safleoedd uchaf o ran ‘Mewnfudo a Buddsoddi’ gan y DU (11^{eg}), Awstralia (15^{fed}), Sweden a’r UDA (19^{eg} safle gan y ddwy). Cafodd Cymru ei rhoi yn y safleoedd isaf gan Saudi Arabia (35^{ain}), India a Rwsia (34^{ain}). Mae proffiliau’r gwledydd a roddodd y safleoedd uchaf ac isaf ar gyfer ‘Mewnfudo a Buddsoddi’ i Gymru yn debyg ar draws 2020 a 2023.


²¹ Yn 2020, cafodd Cymru sgorau o 57.9 ar gyfer ‘Diwylliant’, a ‘Mewnfudo a Buddsoddi’, sy’n golygu bod y ddau wedi cael ail sgôr isaf y dimensiwn ar gyfer Cymru.

Safleoedd a Sgorau Cymru ar gyfer y Priodoleddau

- 3.73 Caiff safleoedd Cymru ar gyfer priodoleddau'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn 2020 a 2023 eu crynhoi ar ffurf weledol yn Ffigur 15, gan ddefnyddio'r cysyniad o hecsagon y Mynegai. Yn yr hecsagon, canol y cylch yw'r safle isaf, sef 60^{ain}, a'r cylch allanol yw'r safle uchaf, sef 1af.
- 3.74 Mae Ffigur 15 yn dangos safleoedd Cymru yng nghyswllt y 23 o briodoleddau, sef Mynegeion Hecsagon y Mynegai Brandiau Cenhedloedd, ac mae'n rhoi trosolwg o'r casgliadau ar gyfer agweddau allweddol ar enw da, a fesurir gan y Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn 2020 a 2023. Yn 2023, roedd Cymru yn yr 20 uchaf ar gyfer 6 o'r 23 o briodoleddau. Cafodd ei gosod yn ei safleoedd uchaf yng nghyswllt datganiadau ar gyfer 'Llywodraethu': mae Cymru "yn cael ei llywodraethu'n gymwys ac yn onest" (19^{eg}), "yn parchu hawliau ei dinasyddion ac yn eu trin yn deg" (19^{eg}), "yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn gwarchod yr amgylchedd" (20^{fed}), ac "yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn helpu i leihau tloedi yn y byd" (20^{fed}). Hefyd, cafodd Cymru ei gosod mewn safle uchel ar gyfer dau ddatganiad 'Mewnfudo a Buddsoddi': Mae Cymru yn "lle da i astudio ar gyfer cymwysterau addysgol" (20^{fed} safle), ac "yn poeni am gydraddoldeb mewn cymdeithas" (20^{fed} safle).
- 3.75 O'i gymharu, roedd canfyddiadau'r ymatebwyr o Gymru ar eu gwannaf yng nghyswllt ei "chyfraniad at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg" (32^{ain}), bod â "bywyd dinesig bywiog ac atyniadau" (30^{ain}), a "rhagori ym maes chwaraeon" (29^{ain}), o'r dimensiynau 'Allforion', 'Twristiaeth' a 'Diwylliant' yn y drefn honno [Ffigur 15].
- 3.76 Mae proffil y priodoleddau yn y safleoedd uchaf ac isaf ar gyfer Cymru yn debyg iawn ar draws 2020 a 2023. Yn 2023, cafodd Cymru ei gosod mewn safleoedd is ar gyfer y rhan fwyaf o briodoleddau o'i gymharu â 2020. Gwelwyd y gostyngiadau mwyaf yng nghyswllt "Cyfraniad at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg" ac "Yn gyfoethog o safbwynt harddwch naturiol", lle cafodd ei gosod 5 safle yn is yn 2023, o'i gymharu â 2020. Er bod Cymru wedi cael ei gosod yn un o'i safleoedd isaf ar gyfer y priodoledd "Yn meddu ar fywyd dinesig bywiog ac atyniadau trefol" yn 2023, dyma'r unig briodoledd y


cafodd Cymru ei gosod mewn safle uwch ynnddi yn 2023 (30^{ain} safle), o'i gymharu â 2020 (31^{ain} safle) [Ffigur 15].

Ffigur 15: Enw da Cymru ar draws y 23 o briodoleddau yn ôl safle (2020 a 2023)



- 3.77 Mae Ffigur 16 yn crynhoi sgorau Cymru ar gyfer y 23 o briodoleddau yn 2020 a 2023. Yn yr hecsagon, canol y cylch yw'r sgôr isaf, sef 0.0, a'r cylch allanol yw'r sgôr uchaf, sef 100.0.
- 3.78 Yn 2023, cafodd Cymru ei sgorau uchaf yng nghyswllt "Yn gyfoethog o safbwynt harddwch naturiol" (69.6), "Parodrwydd i gyflogi pobl â chymwysterau da o'r wlad hon" (68.0), ac "Yn hoffi ymweld pe na bai arian yn broblem" (67.8), o'r dimensiynau 'Pobl' a 'Thwristiaeth'. Ar y llaw arall, cafodd Cymru ei sgorau isaf yng nghyswllt "Meddu ar fusnesau i fuddsoddi ynddynt" (54.8), "Cyfraniad at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg" (55.0), ac "Yn rhagori ym maes chwaraeon" (57.9), o'r dimensiynau 'Mewnfudo a Buddsoddi', 'Allforion' a 'Diwylliant' yn y drefn honno [Ffigur 16].
- 3.79 Mae proffil y priodoleddau â'r sgorau uchaf ac isaf ar gyfer Cymru yn debyg iawn ar draws 2020 a 2023. Cafodd Cymru sgorau uwch ar gyfer pob priodoledd yn 2023, o'i gymharu â 2020. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y sgôr ar gyfer "Hoffi byw a gweithio yn y wlad am gyfnod sylweddol", a gafodd 5.6 pwynt yn uwch yn 2023 (59.4), o'i gymharu â 2020 (53.8) [Ffigur 16].

Ffigur 16: Enw da Cymru ar draws y 23 o briodolddau yn ôl sgôr (2020 a 2023)



Cwestiynau ynghylch Diddordeb Cyffredin

Cynaliadwyedd

3.80 Cyflwynwyd pedwar datganiad i'r ymatebwyr ar thema cynaliadwyedd, a gofynnwyd iddynt i ba raddau roeddent yn cytuno bod y gwledydd yn:

1. "cymryd camau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd";
2. "gweithio'n galed tuag at ynni fforddiadwy a glân";
3. "canolbwyntio ar ddiogelu bywyd gwylt ac adfer cynefinoedd";
4. "annog diwydiannau cyfrifol nad ydynt yn peri difrod i'r amgylchedd".

Tabl 20: Safleoedd a Sgorau Cymru ar gyfer Cynaliadwyedd (2023)

Priodoledd	Sgôr	Sgôr	Safle
	Gymedrig	Fynegai	
Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd	4.5	59.2	20
Gweithio'n galed tuag at ynni fforddiadwy a glân	4.5	58.8	21
Diogelu bywyd gwylt ac adfer cynefinoedd	4.5	59.4	20
Annog diwydiannau cyfrifol	4.6	59.9	20

3.81 Mae Tabl 20 yn crynhoi sgorau a safleoedd Cymru ar draws y pedwar datganiad cynaliadwyedd. Cafodd Cymru sgorau cymedrig rhwng 4.5 a 4.6 (sydd ychydig yn uwch na chanol niwtral y raddfa), a oedd yn trosi'n sgorau mynegai rhwng 58.8 a 59.9, a safleoedd rhwng yr 20^{fed} a'r 21^{ain} safle allan o 60 gwlad. Cafodd Cymru ei sgôr uchaf am "annog diwydiannau cyfrifol nad ydynt yn peri difrod i'r amgylchedd" (59.9).

Bwyd a Dŵr

3.82 Cyflwynwyd dau ddatganiad ynghylch bwyd a dŵr i'r ymatebwyr, a gofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r canlynol:

1. "Mae'r wlad hon yn canolbwyntio ar sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at faeth a dŵr glân";
2. "Mae bwyd y wlad hon yn dda".

Tabl 21: Safleoedd a Sgorau Cymru ar gyfer Bwyd a Dŵr (2023)

Priodoledd	Sgôr		Safle
	Gymedrig	Fynegai	
Sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at faeth a dŵr glân	4.7	61.6	22
Bwyd da	4.6	60.7	33

